

ECO'r Wyddfa

Rhif: 442
Ebrill 2016
Pris: 70c

Tywysoges yn cyfrannu...



A ninnau newydd ddathlu gŵyl ein nawddsant, mae'n addas cofio mai "gwnewch y pethau bychain" oedd ei anogaeth. Dyna'n union a wnaeth merch ifanc o Ddeiniolen yn ddiweddar, a hynny drwy dorri ei gwallt. A chafodd hi fawr o sylw am wneud hynny. Torri gwallt? Onid yw pob un copa walltog ohonom yn gwneud hynny'n rheolaidd? Wrth gwrs, ond roedd torri gwallt Anna Lewis o Ddeiniolen, sy'n ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, yn dorri gwallt go wahanol. Roedd hi'n cyfrannu ei gwallt i elusen arbennig, a hynny i helpu bechgyn a genethod led-led Prydain ac Iwerddon sydd wedi colli eu gwallt o ganlyniad i driniaeth cancr.

Sefydlwyd y 'Little Princess Trust' yn 2006 ac mae'n dathlu ei benblwydd yn ddeg oed eleni. Ei fwriad yw paratoi gwallt gosod i blant yn dioddef o gancr. Ac yn hytrach na defnyddio gwallt synthetig, apeliwyd am wallt 'go iawn'. Yn ystod y deng mlynedd

mae pedair mil o blant wedi elwa o'r elusen, a bellach mae gwallt Anna wedi ei anfon i ffwrdd i'w ddefnyddio.

Fel y gwelwch o'r lluniau roedd angen i'r gwallt fod yn llaes, ac o leiaf 17.5 centimetr o hyd i fod yn addas i'w ddefnyddio, ac roedd angen iddo hefyd gael ei dorri mewn bwndelau. Yr un fu'n gyfrifol am gadw at y canllawiau caeth hyn oedd Wayne Jones, perchennog salon trin gwallt TW yn Llanberis. Eglurodd fel y bu'n rhaid clymu'r gwallt yn fwndeli o faint arbennig cyn ei dorri; rhywbeth nad yw'n gorfod ei wneud yn arferol wrth drin gwallt unrhyw ferch ifanc.

Llongyfarchiadau i Anna am aberthu ei gwallt er mwyn eraill llai ffodus. Ac os oes unrhyw un arall efo diddordeb mewn cyfrannu eu gwallt i'r elusen, ewch ar safle'r 'Little Princess Trust' i gael cyfarwyddiadau.

ECO'r Wyddfa

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2015			
Rhifyn Mai	Copi i law Ebrill 17	Bwndelu Ebrill 29	Ble Deiniolen

RHIF 442
Ebrill 2016
 Argraffwyd gan
 Wasg Dwyfor
 Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i**
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
 Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
 Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
 (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
 Gwynnaf Hughes, Hafan,
 Llanrug (672221)
 glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
 Rhian Elin George, Swn yr Egan,
 Brynrefail (01286) 872306
 ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
 Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
 Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
 Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
 Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
 Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
 Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI
DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
 (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
 Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Rhianon Roberts,
 Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
 rhianonmai@btinternet.com
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
 Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
 Glanrafon (872275)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
 Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)
LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
 56 Glanffynnon (675384)
NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
 neu econantperis@hotmail.com
PENISARWAUN:
 ecopenisarwaun@hotmail.co.uk
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
 Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan



grid 76
 dylunio graffeg
 07766956673

LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd,
 Brafydoedd clywed am agor Canolfan Gymraeg yng Nghaerdydd. O'r diwedd! Dylai hon wneud byd o wahaniaeth i Gymry'r Brifddinas, boed yn siaradwyr Cymraeg neu yn ddysgwyr. Adeilad amlbwrpas ar gyfer pobl o bob oed.

Fel yr athrawes gyntaf a fu'n gweithio yn yr Andes o dan y Cynllun Dysgu Cymraeg ga i ddweud mor falch y mae 'Cymry' Esquel o'u Canolfan hwythau. Pan gyrhaeddais i yno ym 1997 yr unig gyfle gaent i gymdeithasu oedd ar y Sul, a hynny ond yn achlysurol, gan mai dim ond rhyw bedair neu bum gwaith y flwyddyn yr agorai capel Seion ei ddrysau! Buan y newidiodd pethau ar ôl i mi gyrraedd oherwydd wrth dderbyn arweiniad bu yno addoli cyson.

Gwelais, er hynny, nad oedd gan yr Archentwyr hyn o dras Cymreig fodd i gwrdd â'i gilydd, i fwynhau nosweithiau llawen, i gynnal twmpath, i baratoi ar gyfer yr eisteddfodau nac i wylïo'r tapiau fideo y byddent yn eu derbyn yn rheolaidd gan garedigion o Gymru. Codi Canolfan oedd yr unig beth amdani!

Dyma fynd ati i 'werthu brics' ar eu rhan - punt y fricsen! Yn Eisteddfod Pen y bont ar Ogwr ym 1998 i ddechrau ac yna yn Eisteddfod Môn, Llanelli a Thyddewi. Llythyru papurau bro, cymdeithasau o bob math, clybiau cinio a chorau. Derbyn rhoddion gan unigolion ledled Cymru. Trosglwyddo'r symiau arian gan gynnwys pob ffi am annerch hwnt ac yma i ofal pobl gyfrifol yn Esquel. Digon o bres i osod y sylfaen i ddechrau, gefngefn â'r capel, ac ymlaen nes bod digon i godi Canolfan braf a hynny gyda chydweithrediad y bobl draw heb anghofio'r gefnogaeth a gafwyd gan lywodraeth y Dalaith.

Llwyddwyd i agor y Ganolfan ym mis Mawrth 2002 ac erbyn hyn mae wedi agor ei drysau i gannoedd o ymwelwyr o Gymru ac wedi paratoi gwledd o fwyd ar eu cyfer. Ond nid croesawu ymwelwyr yn unig yw amcan y Ganolfan. Mae'r adeilad ar agor yn ddyddiol er mwyn cynnal dosbarthiadau Cymraeg i siaradwyr a dysgwyr o bob oed a chefnidir. Ceir cegin fach yno lle bydd y tegell bob amser yn mudferwi ar gyfer cymryd tot o FATE! Yn y Ganolfan mae'r llyfrgell a'r ffilm-gell. Dyma lle bydd y plant yn eistedd wrth draed eu hathrawon a'r bobl ifainc, trwy weithgareddau Menter Patagonia, yn cynnal twmpath ac yn cael hwyl ar actio a choginio. Dim rhagor o orfod llogi ystafell yma ac acw a neb yn gwybod yn union beth oedd yn digwydd.

Dim o'r fath oherwydd mae gan Gymry Esquel, bellach, eu haelwyd eu hunain.

Âr adeilad bron â bod yn 14 oed mae galw am estyniad. Mae galw am ddwy ystafell ddosbarth, am swyddfa fechan, am 'departamento' ar gyfer yr athrawon a ddaw o Gymru ac i'r gwirfoddolwyr fydd yn cynnig eu gwasanaeth yn eu tro. Mae'r estyniad newydd ar ei hanner a does fawr o obaith cwblhau'r gwaith heb gymorth ariannol o Gymru. Derbyniwyd swm o arian tuag at y prosiect gan lywodraeth y Dalaith, ond mae hwn eisoes wedi'i wario! Disgynnodd y 'peso' yn ei werth ac mae costau byw ar ôl i'r llywodraeth newydd ddod i fod wedi mwy na dyblu.

Dyma fi, felly, unwaith eto yn cymryd y cyfrifoldeb o ofyn am gyfraniadau gan sefydliadau a chymdeithasau ac unigolion. Gwn fod galwadau lu arnom yng Nghymru y dyddiau hyn, ond os oes rhywun yn teimlo ar ei galon y gall gyfrannu swm o arian, boed fach neu fawr, a fyddwch mor garedig, os gwelwch yn dda, â chysylltu â mi. Mae cyfrif yn dal i fod ym Manc Lloyds, Rhydaman yn dwyn yr enw 'CANOLFAN GYMRAEG YR ANDES'.

Yr eiddoch yn gywir,
 Hazel Charles Evans,
 Llais yr Andes,
 Llandybie,
 Rhydaman SA18 2TH

RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru**

£29: Elwyn Williams, Cranleigh.

£20: Mrs Elizabeth Evans Pen Parc, Bethel; Er cof am Stella Wynne Owen, gynt o Dolwyn, Llanberis

£13: Enid Jones er cof am deulu Charlot St., Llanberis.

£10: Marian Thomas, Trawsfynydd; Teulu Trefeddyg, Waunfawr.

£9: Mrs A. Sidebotham, Whaley Bridge; G.M. McCarthy, Chidwall; J. Evans Hughes, Kirby Muxton.

£5: Ronnie Williams, Aylestone; Mrs N. Lovatt, Aberystwyth; Gomer Davies, Tregarth; Geraint Hughes Roberts; Alan Pritchard, Dolafon; Mrs Beryl Griffiths 5 Maes Gwylfa, Deiniolen; Nance Hughes, Wernas, Waunfawr.

Cymdeithas Hanes Teulu Gwynedd

Mae Cymdeithas Hanes Teulu Gwynedd yn cynnal ffair hanes teulu a hanes lleol yn Neuadd Goffa Penygroes rhwng 10 y bore a 4 y prynhawn ar Ddydd Sadwrn, Ebrill 23ain. Hwn yw'r trydydd diwrnod agored i'r Gymdeithas ei drefnu, yn dilyn ffeiriau llwyddiannus yn Llanrwst a Phwllheli yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Bydd cyfle i bori drwy gyhoeddiadau'r Gymdeithas sy'n cynnwys cofnodion beddau nifer helaeth o fynwentydd yr ardal, ynghyd â llyfrau a dogfennau eraill o ddiddordeb lleol. Bydd ffrwyth ymchwil rhai o'r aelodau sy'n byw'n lleol i'w weld a chyfle i gael sgwrs gyda ymchwilwyr profiadol ynglŷn â sut i fynd ar ôl hanes eich teulu chi eich hun.

Bydd arddangosfa gan Gymdeithas Hanes 3 Llan a gwybodaeth gan gymdeithasau lleol eraill perthnasol.

Diolch yn fawr
 Mair Read

Parhad LLYTHYRAU

Cofnodi Gwiwerod Llwyd

Annwyl Olygydd,

Difyr oedd darllen pwt Dafydd Guto am y 'wiwer lwydaidd' ar lethrau'r Wyddfa 'tua 15 mlynedd yn ôl' (2001?) yn ystod 'yr haf hirlfelyn tesog' hwnnw ("fel pob haf arall" meddai Dafydd?). Tybed fuasai'r clwy' traed a'r genau y flwyddyn honno yn ei gwneud yn fwy cofiadwy?

Mae'n ddrwg gen i am fod yn hen bedant ond mae manylion syml fel dyddiad a lle yn ychwanegu cymaint o werth i gofnodion o'r math. Yn anffodus ni allaf gynnig cofnod tebyg i un Dafydd a Linda ar lethrau'r Wyddfa, ond yn Nhywyddiadur Llên Natur mae'r cofnod canlynol ar gof a chadw:

Chwefror 1991: Llyr Gruffydd wedi gweld wiwer lwyd bron ar gopa Pen yr Ole Wen ddechrau'r mis.

Cynigiai mai poblogaeth chwyddedig o wiwerod ieuanc ar ôl tymor llwyddiannus yw'r rheswm am y crwydrwyr mentrus hyn. Mae yna gofnod gennyf ychydig fisoedd ynghynt sy'n awgrymu hynny:

1990: Wiwerod llwydion yn arbennig o niferus yn farw ar y lonydd ddiwedd mis Awst ddechrau mis Medi? DB

Po fwyaf y nifer o gyrff ar y ffordd, po fwyaf y boblogaeth fyw sydd 'ar gael' i gael eu lladd.

Duncan Brown

Llwyddiant ein Bandiau Lleol



Mae'n debyg mai bandiau Deiniolen a Llanrug yw'r ddau sefydliad cymdeithasol hynaf yn y fro, a'r ddau yn parhau i ffynnu a denu ieuencid i'w rhengoedd. Mae'n glod i'r rhai sy'n gyfrifol am eu cynnal fod dau fand mor llwyddiannus yn bodoli o fewn ychydig filltiroedd i'w gilydd. Yn Abertawe yn ystod y mis daeth Band Deiniolen yn ail yn yr Ail Adran a hawlio'u lle yn y Bencampwriaeth Brydeinig yn Cheltenham. Trydydd yn y Brif Adran oedd Band Llanrug, a hawliodd Owain Llestyn o Fethel y wobwr am yr unawdydd gorau ar y cornet – ac roedd naw o fandiau yn cystadlu!

Yn ystod y mis aeth heibio

- Daeth Cyngor Gwynedd i benderfyniad ynglŷn â thoriadau ariannol dros y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus mwyaf cynhwysfawr yn hanes y Cyngor – Her Gwynedd. Afraid ail-adrodd yma yr holl benderfyniadau. Cawsoch i gyd daflen Newyddion y Cyngor (Gwanwyn 2016 Rhif 48) yn amlinellu'r strategaeth ariannol. Mater arall ydi a wnaethoch drafferthu i'w darllen....


- Daeth tymor presennol Llywodraeth Cymru i ben, ac yn ei sgil, ymddeoliad ein haelod Alun Ffred Jones wedi tair mlynedd ar deg o wasanaeth. Diolch iddo am ei waith cydwytodol ar ran yr etholaeth tra bu yn y swydd. Mae rhai wythnosau o ymgyrchu gwleidyddol o'n blaen, a pheth ohonno eisoes wedi cychwyn. Gan fod cyfansoddiad yr "Eco" yn datgan fod y papur yn amhleidiol, dymunwn yn dda i bob ymgeisydd, a boed i'r etholwyr fod yn ddigon call i wneud dewisiadau doeth.

- Rhoes Cyllideb Llywodraeth Llundain gur pen i'r union blaid fu'n gyfrifol am ei llunio, a rhai sylwebyddion gwleidyddol yn amau fod y ddadl dros aros neu adael Ewrop yn rhannol gyfrifol am yr hollt o fewn y Blaid Doriaidd. Amser a ddengys...

- Llongyfarchiadau i holl ieuencid y fro ar eu llwyddiannau yn Eisteddfodau Sir yr Urdd. Ymlaen am y Genedlaethol! Ond peidiwn chwaith ag anghofio'r degau a gafodd eu siomi mewn Eisteddfod Cylch a Sir, a diolchwn i'r holl rieni, athrawon a hyfforddwyr sy'n rhoi o'u hamser yn wirfoddol i ofalu fod y plant a'r bobl ifanc yn cael y profiadau sy'n cyfoethogi eu bywydau.

- Peidiwn ag anghofio chwaith yr ieuencid sy'n cael yr un profiadau ym maes chwaraeon, a llongyfarchwn yn arbennig, dim peldroed dan 15 oed Ysgol Brynrefail ar gyrraedd rownd derfynol Cwpan Ysgolion Cymru.

- Mae'n bosib dilyn "Eco'r Wyddfa" bellach ar Facebook ac ar Trydar (Twitter). Gyda diolch i Robin Williams a'i fab, Llewelyn am fod yn gyfrifol am y safleoedd.



SYNUD A CHADW
CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol
01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com

CHRIS GRIFFITHS
Trwsio Ffenestri UPVC • Drysau
Cloeau • Bachau • Twll Llythyr
Ac unedau Gwydr wedi Chwythu
18 Mill Lodge, Llandegfan, Ynys Môn LL59 5YB
01248 713 369 neu 07813 455653

Ysgol Gwaun Gynfi



Gŵyl Dewi Plant Bl 4 a 5 oedd yn gyfrifol am gynnal gwasanaeth Dydd Gŵyl Dewi diddorol iawn yn yr ysgol eleni. Cawsom hanes Dewi Sant a thraddodiadau'r Cymry wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Fel y gwelwch o'r lluniau, roedd y plant wedi gwisgo yn eu dillad traddodiadol a chrysau Cymru.



Dona Direidi a Tara Tan Toc

Roedd y stori Dwisio Pi-Pi yn dweud wrthym ein bod ni yn blant mawr yn defnyddio'r toiled yn rheolaidd ac i beidio gwneud fel Arfon a phi-pi yn y gwpan!



Arfon Wyn a Richard Synnott o'r Moniars

Cawsom gadw curiad gyda'r caneuon drwy glapio a tharo ac ysgwyd gwahanol offerynnau. Roedd pawb yn mwynhau eu hunain ac wrth eu boddau yn gwrandao ar Richard yn chwarae'r sacsoffon ac Arfon Wyn yn strymio ar y gitâr.



Huw a Bethan Roberts

Dawnsio gwerin – ffidil, telyn deires, crwth, pibgorn a dillad Cymraeg.

Angharad Tomos

Daeth yr awdures Angharad Tomos atom i drafod cymaint o hwyl yw ysgrifennu storïau. Dyma un o'i chymeriadau, Rala Rwdins yn ogof Tan-Domen.

Dafydd Iwan

Roeddem yn ffodus iawn o gael cyfarfod Dafydd Iwan. Dywedodd pa mor bwysig oedd cadw'r iaith Gymraeg yn fyw.



Mathew Guy

Croesawyd cyn-ddisgybl i'r ysgol i ddangos i'r plant sut i wneud teisennau Pasg. Mae Mathew yn enwog iawn yn dilyn ymddangos ar raglen Masterchef ac mae wedi ennill Chefs on Trial gyda Alex Polizzi ar y teledu. Cafwyd llawer iawn o hwyl yn ei gwmni a pharatodd 160 o deisennau a bisgedi yn ystod y bore gyda'r plant yn ei gynorthwyo i dorri dwsinau o wyau a chymysgu'r cymysgedd gyda'u dwylo.

Chwarae teg i Mathew, daeth yn ôl am y prynhawn cyfan i gynorthwyo'r plant i addurno 160 o deisennau a bisgedi gyda hufen, siocled plaen, siocled llefrith, eising, tiwbiau addurno ac wyau Pasg ar ben y cyfan!!

Cafwyd diwrnod arbennig yn ei gwmni. Diolch yn fawr iawn Mathew.



Morgan Tomos

Tryfan a Deion gyda llyfrau Alun yr Arth gyda'r awdur, Morgan Tomos. Bu'n ddigon caredig i arwyddo'r llyfrau iddynt. Bu'n siarad, sgwrsio a thynnu lluniau gyda holl blant y Cyfnod Sylfaen.

Mr Parry – llwyau caru

Cawsom glywed am hen arferiad Cymreig o wneud a rhoi llwy garu i'ch cariad gan Mr Parry.

Annette Bryn Parri a Dylan Cernyw – Piantel

Anna Pritchard

Mae'r artist lleol, Anna Pritchard, wedi bod yn gweithio gyda holl blant yr ysgol yn datblygu eu sgiliau creadigol a'u hiaith.

Nia Gruffydd o'r llyfrgell yng Nghaernarfon yn adrodd straeon i'r plant ieuengaf

Cawsom stori am y 3 arth yn byw yn y goedwig ac am y wlithen oedd eisiau bod yn falwoden.

Parhad DEINIOLLEN



Dosbarth yn y Central School - Deiniolen yn 1938

Diolch i Mrs Pat Thomas, Pentre Helen, Deiniolen am ddod â'r llun yma i ni Mae pawb sydd ynddo yn eithaf hen erbyn hyn ond buasai Mrs Thomas yn hoffi gwybod a oes yna un o ddarllenwyr yr Eco yn gwybod beth yw eu henwau os gwelwch yn dda.

Seindorf Ieuenctid



Dydd Sul, y 29ain o Chwefror, roedd Band Ieuenctid Deiniolen yn arwain gorymdaith Gŵyl Ddewi ym Methesda. Roedd hi'n ddiwrnod braf ac roedd yn fraint i'r Band arwain yr orymdaith. Wedi gorymdeithio agorodd y Band Gyngerdd Gyl Ddewi yn Neuadd Ogwen. Roedd tua 40 o blant yn y band a chafwyd croeso cynnes iddynt ym Methesda.

Y noson ganlynol daeth Prif Swyddogion Gelli Gyffwrdd (Greenwood) i'r Hen Felin i gyflwyno cotiau glaw newydd i'r ieuenctid, fydd yn rhan bwysig o'u gwisg newydd. Hoffai Osian Tomos, arweinydd y Band Ieuenctid ddiolch yn fawr iawn i Greenwood am y nawdd hael. Bydd cael y cotiau yn galluogi'r Band i gystadlu yng nghystadleuaeth byd enwog y Whit Friday Marches ym Mis Mai ac yna cystadlu mewn cystadleuaeth awyr agored yn y Drenewydd ym Mis Mehefin.

Balch iawn oeddem hefyd fel Band Ieuenctid i groesawu tri aelod newydd i'r rhengoedd o'r Band Iau, sef Anedd, Gwion a Ioan.

Os oes gan eich plentyn ddiddordeb mewn ymuno â'r Band Iau neu'r Band Ieuenctid yn Neiniolen yna cysylltwch ag Osian ar 07717055639.

Diolchiadau Seindorf Arian Deiniolen

Dymuna pwyllgor Seindorf Arian Deiniolen ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob arwydd o gefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Cydymdeimlo Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu'r diweddar Philip Jones, Rhos Marchlyn, yn eu profedigaeth o golli un annwyl iawn.

Diolch Dymuna Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa, Deiniolen, ddiolch o waelod calon am y blodau bendigedig, yr anrhegion a'r cardiau lu a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 101 ar Chwefror 24ain. Mae hi'n ddiolchgar i bawb am eu haelioni ac am gofio amdani ar achlysur arbennig.

Cymdeithas Undebol Deiniolen O dan lywyddiaeth Mr John Williams, croesawyd Mr Berwyn Owen, Llanrug, atom. Fferyllydd gyda Betsi Cadwaladr yw ei waith pob dydd a chafwyd noson arbennig o ddifyr a diddorol ganddo, yn llawn hiwmor ac yn bendant yn agoriad llygaid i bob un ohonom. Diolchwyd yn gynnes gan Mr Brian Price. Bydd swper y Gymdeithas (Blynnyddol) yn cael ei gynnal ar Nos Fawrth, Ebrill 26ain, yng Nghlwb Golff Caernarfon a'r gŵr gwadd fydd Mr Dafydd

Iwan.

Eisteddfod Cylch Eryri Llongyfarchiadau i Elin Dafydd am ddod yn ail ar yr unawd pres blwyddyn 6 ac iau yn yr eisteddfod ar yr Eb tenor horn. Diolch i Gavin Saynor a Paul Hughes am ei hyfforddi. Dymuniadau gorau i ti Elin yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor. Llongyfarchiadau i bawb o blant yr ardal a fu'n cystadlu yn ddiweddar yn yr eisteddfod cylch a'r sir.

Llongyfarchiadau Roeddem yn fach iawn o weld Cai Owen, Rhes Deiniol, yn ennill cap dros Gymru yn ddiweddar mewn gemau pêl-droed draw yn yr Iwerddon. Da iawn chdi.

Seindorf Deiniolen Llongyfarchiadau ar lwyddiant y Seindorf yn ddiweddar mewn cystadleuaeth yn Abertawe

Newyddion Fel y gwelwch, digon tenau yw'r newyddion y mis hwn. Mi fyddwn yn ddiolchgar o dderbyn unrhyw hanes i'w cynnwys yn yr Eco, mae digon yn mynd ymlaen a braf fyddai cyfleu hynny yn y tudalennau yma.

ddiwethaf, blwyddyn hynod lwyddiannus yn hanes y band a'r band Ieuenctid. Diolch yn fawr i gwmni Gelli Gyffwrdd, Y Felinheli, am eu rhodd o gotiau glaw i'r holl aelodau o'r Band Ieuenctid.

Diolch hefyd i holl aelodau'r clwb blynnyddol am eu cefnogaeth barhaol. Enillwyr am y Flwyddyn 2016 fel a ganlyn:

£30.00: Ann Jones (Bethel); Ffion Hughes (Deiniolen); Meirion Jones (Tai Caradog); Prydwen Pritchard (Llanberis); Dorothy Jones (Bangor); Alaw Prys Huws (Bethel); Carwyn Owen (Caernarfon); Hilda Saynor (Bangor); Brenda Williams (Rhydfadog); Meinir Efans (Rhos Isaf).

£20.00: Gillian Price (Clwt y Bont); Elfed Williams (Deiniolen); Osian Sanderson (Mynydd Llandegai); Cemlyn Williams (Caernarfon); Sioned Lewis (Rhydfadog); Sian Roberts (Bethel); R.O. Thomas (Deiniolen); Gwen Griffiths (Deiniolen); Owen Williams (Manceinion); Joyce Jones (Llanrug).

£10.00: Hilda Saynor (Bangor); Eirian Roberts (Llanrug); Megan Williams (Gaerwen); Iorwerth Price (Pentir); Gillian Price (Clwt y Bont); Glenda Morris (Llanrug); John Griffiths (Deiniolen); Meurig Huws (Bethel); Sion Wyn Hughes (Deiniolen); Hefin G. Jones (Llanrug).

faterion yn ymwneud â thenantiaeth. Roedd wedi mwynhau gyrru car erioed, ac yn falch o'r cymwysterau ychwanegol oedd ganddo fel gyrrwr.

Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Gwener, Mawrth 4 dan arweiniad y Parchg John Pritchard. Dymuna teulu ei ddiweddar frawd Wyn ddiolch i'r cymdogion a'r cyfeillion am bob cymwynas a dderbyniodd Alan ganddynt, ac am y cydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch hefyd i bawb a gymerodd ran yn yr angladd

Angladd: Bu farw Alan Parry, 29 Rhydfadog (19 Pentre Helen gynt) ddydd Gwener, Chwefror 26 yn 71 mlwydd oed. Roedd Alan wedi treulio'r rhan fwyaf o'i oes yn Neiniolen. Bu'n ofalus iawn o'i fam wedi iddi hi gael ei gadael yn weddw yn 1989. Bu'n gweithio mewn siop ddillad ac yna yn ffatri Ferodo yng Nghaernarfon. Wedi hynny, roedd wrth ei fodd yn gweithio'n wirfoddol i Radio Ysbyty Gwynedd. Bu hefyd yn gweithio fel 'dyn lolipop' yn Ysgol y Faenol ym Mangor ac Ysgol Gwaun Gynfi. Yn ddiweddar, symudodd o Bentre Helen i Rydfadog ac aeth ati i helpu cymdogion gyda gwahanol

Hogia lleol yng ngofal Hogia'r Ddwylan



Ar nos Sadwrn, 5 Mawrth 2016, ffarweliodd Hogia'r Ddwylan ac Ilid Anne Jones, arweinydd yr Hogia ers 1997. Cynhaliwyd noson arbennig yng ngwesty'r Bulkeley, Biwmares, pryd yr anrhegwyd Ilid â llechen hardd o chwarel

Dorothea, Tal-y-sarn, y pentref yn Nyffryn Nantlle ble magwyd Ilid. O dan arweinyddiaeth Ilid enillodd y côr wobrau lu yn yr Eisteddfod Genedlaethol, gwyliau cerddorol ym Mhrydain a thramor ac, wrth gwrs, Côr Radio Cymru.



Cyhoeddwyd dwy CD, teithio yng Gwlad Belg, Gogledd America, yr Almaen, Iwerddon a Hwngari a chynnal ugeiniau o gyngherddau yng Nghymru a Lloegr. Bu Ilid yn arwain cymanfaoedd canu yng Ngogledd America ac yn

Awstralia (ddwy waith) gan gynnal dosbarthiadau meistr yno gyda chorau meibion.

Fodd bynnag mae'r côr mewn dwylo diogel gyda dau o feibion ifanc bro'r Eco wrth y llyw.

Yr arweinydd newydd yw Iwan Wyn Williams o Lanberis, sy'n brysur yn gwneud enw iddo ei hun fel cerddor ifanc llwyddiannus. Bydd lle Iwan fel cyfeilydd yn cael ei gymryd gan Stephen John Evans o Gaernarfon, sydd bellach yn byw yng Nghlwt y Bont.

Dymunwn bob dymuniad da i'r ddau.

Ymweliad Gwyddonol.



Mae Rhodri Llwyd, Llanrug yn ddarlithydd Ffiseg yng Nholeg Meirion Dwyfor ym Mhwlheli a Dolgellau. Yn niwedd Chwefror fe fu'n ffodus iawn i gael ei ddewis i fod yn rhan o ymweliad hyfforddiant athrawon o Gymru i safle CERN ar y ffin rhwng Ffrainc a'r Swistir. Fel rhan o grŵp o 24 o athrawon ffiseg o bob rhan o Gymru, cafodd gyfle i ddysgu am, ac ymweld â sawl arbrawf blaenllaw yn y byd Ffiseg. Dyma adroddiad byr ganddo am yr ymweliad hwnnw.

Yn ffodus, doedd y cyflymydd hadronnau mawr (Large Hadron Collider) yn rhedeg ar y pryd, felly cefais gyfle i ymweld a'r canfodydd CMS (Solenoid Mwon Cryno) a welch yn y llun y tu cefn i mi. Yma y darganfuwyd y dystiolaeth am fodolaeth y Boson Higgs (ynghyd a chanfodydd ATLAS - hefyd yn CERN).

Yn ystod yr ymweliad cafwyd darlithoedd ar sawl pwnc - yr LHC a'i gweithrediadau, gwrthfater, ac arbrawf ISOLDE sydd yn creu isotopau newydd er mwyn eu defnydd mewn meddygaeth.

Roedd cryn gynnwrf yn y 'Ffatri Gwrthfater' yn ddiweddar gan iddynt lwyddo i greu atomau o wrth-hydrogen (gyda gwrthbroton negatif yn y niwclews a gwrthelectronau yn ei amgylchynnu). Roeddynt yn y broses o ddylunio cam nesaf yr arbrawf ar ôl llwyddo i gadw y gwthatomau yn sefydlog am amseroedd hir (chwarter awr ar gyfartaledd!). Y cam nesaf yw i geisio gwneud gwaith cemeg arnynt i weld os ydynt yn ymddwyn fel y mae hydrogen 'arferol' yn ymddwyn trwy eu hastudio gyda laserau.

O safbwynt personol roedd yr ymweliad yn un arbennig iawn, a theimlaf yn ffodus dros ben i gael y cyfle i weld beth sydd yn mynd ymlaen ar flaen y gad yn fy mhwn.



Mwy o le yn Y Pantri



Ian Hughes yn croesawu dwy gwsmer i'r estyniad newydd.

Ganol fis Mawrth agorwyd estyniad i gaffi'r Pantri yn Llanberis. Roedd y perchogion, Ian a Wendy Hughes wedi bod yn awyddus i gael mwy o le yn eu caffi mewn pryd i'r tymor gwyliau. Er mor gartrefol yw'r Pantri, gallai fod braidd yn gyfyng yno ar amserau prysur. Daeth y cyfle pan symudodd cwmni Joe Brown allan o'r siop drws nesa. Daeth y perchennog i gytundeb gyda'r Pantri i osod rhan o'r siop fel estyniad i'r caffi sy'n rhoi lle i tua ugain yn fwy o gwsmeriaid, ac nid byrddau yn unig sydd yno chwaith, ond soffas cyfforddus i ymlacio gyda paned. Roedd mynedfa o'r siop i'r caffi yn bodoli yn barod, ond bellach, mae rhan o'r hen siop hefyd yn gaffi. Ac mae'r siop ar agor ar gyfer gwerthu nwyddau awyr-agored. Dyna'i henw newydd: Siop Awyr Agored/Outdoor Shop. Dryslyd? Wel piciwch draw am baned neu bryd o fwyd, a mwynhewch!

DINORWIG

Marian Jones.
Ffôn: (01286) 870292

Newid Tymor Erbyn y daw'r Eco o'r wasg fe fydd tymor y gaeaf drosodd ac fe fydd y gwanwyn wedi dod a byddwn wedi troi y cloc awr ymlaen. Mae'r ŵyn yn prancio yn y caeau ac yn gwneud i ni deimlo yn well. Tipyn o liw yn dod i'r ardd a'r coed yn blaguro. Mae'n wir na chawsom aeaf rhy ddrwg, digon o wynt a glaw, ond dim ond un waith eleni y bu'n rhaid clirio eira. Mae wedi bod yn oerach yn ystod y ddau fis olaf yma nac a fu drwy'r gaeaf ond, wedi'r cyfan, diolch am gael gwanwyn unwaith eto. Mae pawb yn teimlo'n well.

Marwolaethau Ar 28ain bu farw Jane Catherine Hughes, Groeslon Uchaf gynt, yn 80 mlwydd oed. Cafodd Jane ei geni a'i magu yn yr ardal ac yr oedd yn aelod ffyddlon yng Nghapel MC Dinorwig, lle y cafodd ei bedyddio a'i derbyn yn gyflawn aelod o'r eglwys. Yr oedd ei diweddar fam yn un o organyddion y capel. Cafodd Jane ei haddysg yn ysgol bach Dinorwig ac yna yn Ysgol Ramadeg Brynrefail cyn mynd wedyn i'r coleg ym Mangor. Tra yn yr ysgol fe fu iddi gyfarfod ac Emrys Hughes o Gwm y glo a bu i'r ddau briodi rai blynyddoedd wedyn. Fe aeth Jane wedyn yn athrawes i Lerpwl. Roedd ei hangladd ar ddydd Gwener, 18 o Fawrth. Yr oedd ei chartref, Groeslon Uchaf, wedi ei werthu tua dwy flynedd yn ôl gan nad oedd iechyd y ddau ohonynt yn bell o fod yn dda ac yn gwaethygu. Nid oedd gobaith iddi ddod yn ôl i'r hen ardal i ddiweddu ei hoes.

Gan y bydd yr Eco wedi mynd i'r wasg cyn yr angladd, caf sôn am hynny yn y rhifyn nesaf.

Mrs Melisa Mary Jones, Llanfairfechan

Diweddar wraig Wyn Bach, 3 Bro Elidir gynt, oedd Mel. Cafodd Wyn fagwraeth digalon iawn pan yn blentyn. Yr oedd ei fam yn wael ei iechyd a'i dad, Eric, â dim diddordeb yn y plant (tad Eric a dad yn ddau gefnder) ac yn mynd oddi cartref am ddyddiau o hyd. Gwnaeth fwy yn tŷ ni nag a wnaeth i'w wraig a'i blant. Yr oedd iddynt dri o hogiau, sef y diweddar Dafydd Vaughan, Alwyn a Wyn. Bu ei fam yn orweddog yn ysbyty Eryri am flynyddoedd ac, erbyn hyn, yr oedd eu tad wedi gadael cartref. Bu raid i'r plant gael eu magu yn Harlech.

Bu farw Dafydd rhywle yn yr Alban ac fe fu raid rhoi Wyn yn Bryn y Neuadd, Llanfairfechan. Dyna lle y daeth tro mawr ym mywyd Wyn, a hynny er gwell.

Ar ôl peth amser, daeth Wyn i fod yn nyrs yno ac yn gweithio ar y ffôn yr oedd Mel. Daeth y ddau yn gryn ffrindiau a byddai Wyn yn cael croeso mawr yn ei chartref. Ar ôl peth amser cafodd hithau groeso yng nghartref Wyn.

Bu i'r ddau briodi yn 1999 a byddent yn cael mwy nac un gwyliau y flwyddyn ac roeddynt yn andros o hapus. Yr oedd Mel yn barod iawn i roi help, yr oedd yn hynod gymwynasgar ac fe fu yn wraig ardderchog i Wyn. O'r diwedd cafodd Wyn Bach gartref a chariad. Bu angladd Mel yn yr Amlosgfa Bangor ddydd Llun, 14 o Fawrth, a'r capel ddim digon mawr i ddal y gynulleidfa a ddaeth i dalu'r gymwynas olaf. Braf oedd gweld Wyn Bach erbyn hyn yn ddyn ac yn hynod falch o weld pobl yr hen ardal.

Diolch i Mel am roi cartref a chariad i Wyn, rhywbeth na chafodd pan yn blentyn.

Wyn, derbyn fy nghydymdeimlad llwyrâf â chdi a gobeithio y cei nerth i ddal y golled fawr. Duw a fyddo gyda thi a chofia fod drws rhif 7 yn agored iti bob amser, fel ag y bu o'r blaen.

Bu farw y cyn gynghorydd Philip Wyn Jones ar ôl salwch creulon iawn yn Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Phil wedi bod yn gynghorydd cymuned Llanddeiniolen am beth amser ac wedi rhoi o'i orau i'r ardal, ond oherwydd ei salwch fe fu raid iddo ymddiswyddo. Yr oedd iddo bump o blant, sef Steven, Gwilym, Gruffudd, Megan a Miriam, ac anfonwn ein cydymdeimlad llwyrâf â hwy yn eu colled. Gan nad yw trefniadau yr angladd yn wybyddus cyn i'r Eco fynd i'r wasg caf sôn am hyn yn y rhifyn nesaf.

Cofion Anfonwn ein cofion annwyl at Mrs Megan Morris, Minffordd gynt, ond yn cartrefu ym Mhlas Garnedd yn awr.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts.
Ffôn: 870580

YREGLWYS BRESBYTERAIDD

Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd Brynhawn Gwener, Mawrth 4ydd, ymunodd nifer o chwiorydd yr eglwys â chwiorydd ardal Llanrug yng Nghyfarfod Gweddi Blynyddol Chwiorydd y Byd yng Nghapel y Rhos. Roedd y gwasanaeth eleni wedi ei baratoi gan chwiorydd Ciwba. Cymerwyd rhan gan Ifanwy Jones, Iris Rowlands a Lowri Prys Roberts. Treuliwyd orig fendithiol.

Oedfaon Ebrill am 5 yr hwyr

3: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)

10: Mr Richard Lloyd Jones, Bethel

17: Miss Sioned Williams, Bethesda

24: Parch Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan

CWMYGLO

Undeb-y-Mamau Cyfarfu'r aelodau yn Eglwys St Mair bnawn Mawrth, 15 Mawrth. Croesawyd pawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth oedd yng ngofal Dorothy i ddechrau. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Enid Taylor, Jini S. Jones, Katy Williams, Mrs I. Morgan a Hilda. Cafwyd munud tawel i gofio am Mrs Phyllis McNulty a Mrs Margaret Latham. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod a gafwyd mis Chwefror a phasiwyd eu bod yn gywir.

Mrs Carol Cooper oedd y wraig wadd a phwnc Mrs Cooper oedd y Gwasanaeth o Ddiolchgarwch yn y Gadeirlan ar 5 Ebrill i ddathlu 125 o flynyddoedd y mudiad yn y Ddeoniaeth. Soniodd hefyd am apêl 'Bagiau Ysbyty' ac eitemau wedi eu gwau.

Yn gofalu am y lluniaeth oedd Marjorie, Dorothy a Hilda; rhoddwyd y raffl gan Marjorie ac fe'i henillwyd gan Louie Jones. Diolchwyd i'r gwsteion a Mrs Cooper gan Auriel. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg.

Cyfarfod nesaf 19 Ebrill.

Manion Gwanwyn Norman Closs

Nid oes neb yn gwybod yn iawn o'r lle y daw Diwrnod Ffŵl Ebrill – ond mae pawb drwy'r wlad yn cymryd neu'n gorfod cymeryd rhan yn yr hen hen arferiad!

Mis Ebrill lawn cawodydd
ac enfys fôr i fynydd,
a'r hanner diwrnod cyntaf un
gwnawn ffwlcyn hen a newydd.

Dau droad, dwy gyhydno
yw congŵfeini'r cosmos
boed siwrne arw neu un lefn
hen drefn – heb ddim yn aros.
'troad'-solstice; cyhydno- equinox
Tra'n darllen cerdd gan y bardd Ted Hughes gwelais
ddyfyniad – o Swydd Efrog mi gredaf.
I stayed clear, "Swine
bees and women cannot be turned"
meddyliais innau –
Tri pheth nad rhwydd eu rhwystro,
gwenyn, merched, moch gwallgo'
y merched cryf, a'r moch tu hwnt,
a gwenyn brwnt yn pigo!

A ninnau wedi dathlu gŵyl ein nawddsant eto beth am
geisio ei gofio fel hyn -

Mae'r we yn wych drysorfa'
gwyddor a'r celfyddyd
ond cofiwn gyngor Dewi Sant -
daw'r llwyddiant drwy'r mân betha'

Norman Closs

Yn dilyn y cais am wybodaeth ynglyn a’r gŵr ifanc o Lanrug a ymfudodd i’r America, a’r wybodaeth ychwanegol a gasglwyd erbyn y rhifyn diwethaf o’r “Eco”, daeth ymateb pellach gan John Alan Roberts (Llanberis gynt), a fu’n chwilio’n ddygn i geisio cael mwy o’i hanes. Ond fel mae yntau’n cyfaddef, “mae’r wybodaeth a’r dystiolaeth amdano yn gymysglyd iawn.” Ffrwyth ymchwil John Alan Roberts yw’r wybodaeth sy’n dilyn, a diolch iddo am y manylion ychwanegol. Deallwn fod rhai o aelodau’r teulu yn parhau i fyw yn yr ardal, ond hyd yn hyn, does neb wedi cysylltu. Ymfudodd Thomas H. Hughes ar long y ‘Cedric’ o Lerpwl i Efrog Newydd, a glanio ar Fehefin 11eg 1911. Mae’n cael ei ddisgrifio fel chwarelwr, ac yr oedd yn anelu am Aberdeen, South Dakota, ble roedd ei ewythr Humphrey Davies (brawd i’w fam) yn byw.

Cafwyd trafferth i’w leoli ar gyfrifiad wedi iddo ymgartrefu yn America, ond mae cofnodion eraill yn taflu rhyw gymaint o oleuni amdano. Mae cais i’r Gwasanaeth Budd-dâl Cymdeithasol ar ddechrau 1942 yn ei enwi fel Hughie Thomas Hughes (rhoir dyddiad ei eni fel 31 Awst 1891). Mae’r dyddiad geni yn cyd-fynd â’r cofnod pan groesodd o Ganada i’r U.D.A. yn 1913, ac ar yr un ddogfen enwir ei dad, David T. Hughes a’i fam, Elizabeth. Ond nodir ei fan geni fel Aberdeen, South Dakota!

Mae cofnod cynharach yn nodi iddo ymuno â Byddin Canada yn ystod y Rhyfel Mawr. Dyddiad y ddogfen yw 21 Awst 1915. Y tro hwn, cofnodir ei enw fel Humphrey T. Hughes, a’i fod yn enedigol o Lanrug. Mae’r dyddiad geni yn gytun a’r cofnod diweddarach, ac enwir ei fam fel Elizabeth Hughes, Llwyn Onn, Llanrug. Mae’r cofnod hefyd yn nodi iddo fod yn aelod o’r South Wales Borderers am dair blynedd a hanner. Os felly, byddai hyn cyn iddo ymfudo yn 1911. Mae’r dyddiadau’n awgrymu iddo fod yn filwr yn ifanc iawn – tua 17 oed.

Cofnod arall yw Cofrestr Drafft ar gyfer yr Ail Ryfel Byd yn 1942, ac yntau bellach dros 50 oed. Ei gyfeiriad erbyn hyn yw 940 N.Wells Street, Chicago. Y cyswllt agosaf (yn ôl y ddogfen Drafft) oedd Robert George Hoffman, ei gyflogwr. Mae ei ddyddiad geni yn gyson, ond y tro hwn enwir ef yn Hughie Trevor Hughes! Rhaid mynd yn ôl i Aberdeen, South Dakota i ddarganfod pwy oedd Robert George Hoffman, cyflogwr Hughie/Humphrey T. Hughes. Humphrey Davis (ewythr yr ymfudwr ifanc o Lanrug yn 1911) oedd y penteulu yn ôl Cyfrifiad 1930. Yn yr un cartref roedd Hazel Hoffman, merch Humphrey Davis a chyfnither i’r mewnfudwr o Lanrug. Roedd hi’n wraig weddw gyda mab 12 oed o’r enw Robert George. Hwn felly oedd yn cyflogi cefnder i’w fam yn 1942. Ond unwaith yn rhagor, dyma greu penbleth. Bu Robert George Hoffman farw’n filwr ifanc dwy ar hugain oed yn Manila, Philipines ar Ionawr 10fed 1940.

Mae John Alan Roberts hefyd wedi darganfod teulu gyda’r cyfenw Hughes yn byw yn Transcona, Manitoba, Canada, a’r enwau yn cyd-fynd â theulu Llwyn Onn, Llanrug!

Llyn Llam Dda.

Derbyniwyd un galwad ffôn yn dilyn dangos y llun yn y rhifyn diwethaf. Cefais sgwrs ddiddorol iawn gyda’r galwr, ond nid oedd yn fodlon i mi ddatgelu ei enw yn yr “Eco”. Yn blentyn yn yr ardal yn ystod y 1940’au cynnar, mae’n cofio math o bont bren ar draws yr afon yma. Y disgrifiad oedd math o blanc pren trwchus, tebyg i’r planciau a ddefnyddir ar sgaffaldiau heddiw. Doedd dim son am gadwyn ar draws yr afon hyd yn oed bryd hynny. Ond roedd y llyn yn un peryglus oherwydd fod trobwll ynddo, a doedd neb yn mentro nofio yno.

Yng Nghymru yng Nghyfrifiad 1901, enwir y rhieni fel David ac Elizabeth (Lizzie) Hughes, a’r plant yn Humphrey T., Gwen A., a Richard D. Ai ‘Ann’ a ‘David’ oedd ail enwau’r plant?

Roedd y teulu yng Nghanaada wedi ymfudo o Gymru yn 1912 (flwyddyn ar ôl Humphrey). Yng Nghyfrifiad 1921 mae David (y tad), Anne (merch) a David (mab). Mae yno fab arall o’r enw William, ond does dim son am fam. Nodir fod David, y tad yn ŵr gweddw. Ai teulu Llwyn Onn, yw’r rhain? Dim ond rhyw 300 milltir sydd rhwng Transcona, Manitoba ac Aberdeen, South Dakota – digon agos i gadw cysylltiad teuluol. Cyd-ddigwyddiad tybed?

Mae llawer o ddryswch ynglŷn â’r cais Gwasanaeth Budd-dâl Cymdeithasol. Yn ôl cyfaill o America, mae ffurflenni o’r fath yn ymwneud a phobl a fu farw – Chwefror 1942 yn achos Humphrey Hughes. Sut felly mae egluro ei gais Drafft i’r Fyddin yn Ebrill yr un flwyddyn?

Mae llawer o ddirgelwch yn parhau, a hynt a helynt Humphrey/Hughie (neu ba enw bynnag arall a ddefnyddiai) rhwng 1926 a 1942 yn aneglur.

Ac os mai teulu Llwyn Onn oedd yn Manitoba, Canada yn 1921, a’r tad yn ŵr gweddw, sut y gallodd Lizzie (y wraig a fu farw) wneud ymholiad yn Y Drych am ei mab yn 1926?

Hyd yma, John Alan Roberts.

Ac yna, tro arall eto yn y gynffon. Tra’n gwneud gwaith ymchwil hollol amherthnasol i’r uchod yn yr Archifdy, roeddwn yn chwilio drwy ôl-rifynnau’r Herald Cymraeg am 1931, a dyma ddod ar draws y cyfeiriad hwn: “Cyddymdeimlwn a Mrs Hughes, Egryn Villa, ar farwolaeth ei brawd, Humphrey Davies yn Aberdeen, UDA. Bu’n beirannydd ar reilffordd Milwaukee ers 1882 hyd ei waeledd tua pum mlynedd yn ôl.” Hyn ym mis Mehefin.

Felly, pam roedd Elisabeth (Lizzie) Hughes yn holi yn Y Drych yn 1926 os oedd ei mab gyda’i brawd yn Aberdeen, ac yn cael ei gyflogi gan ŵyr ei brawd yn ddiweddarach?

Dyna brawf pellach fod Elisabeth Hughes yn Llanrug yn 1926 ac yn 1931. Rhaid oedd chwilio ymhellach, a chael golwg ar Restrâu Etholwyr. Oedd roedd hi yn Egryn Villa yn 1939, a’i henw llawn oedd Elisabeth Susanah Hughes. Hi yn unig oedd yn byw yno yn 1939. Doedd dim rhestrau etholwyr yn cael eu cyhoeddi yn ystod y Rhyfel, ac erbyn 1945, rhywun o’r enw Ann Williams oedd yn byw yno. Bu Elisabeth Susanah Hughes farw ar yr 8fed o fis Gorffennaf 1945 yng nghartref ei merch a’i mab yng nghyfraith – Winifred Ann a William John Williams yn Llangoed, Môn. Tybed a oedd hi cyn ei marwolaeth wedi dod i gysylltiad efo’i mab, Humphrey, a oedd yn byw yn Chicago dair blynedd ynghynt?

Codi Hwyl

I’r rhai sy’n dilyn hynt a helyntion y rhaglen hon ar nos Sul ar S4C, diddorol oedd eu hymweliad â chwarel lechi yn Valentia, yn ne-orllewin Iwerddon. Mewn Gaeleg, eglurodd un o’r brodorion lleol mai chwarelwyr o Wynedd a ddaeth yno i sefydlu’r chwareli oherwydd eu profiad a’u gwybodaeth. Soniodd yn arbennig am rai o Chwarel Penrhyn, ond gwn fod un o’r fro hon wedi mentro yno. Ei enw oedd Daniel Evans a fu’n byw yn Nhŷ Capel Glasgoed ac yn Nhan y Gaer, Pontrhythallt. Cafodd ei ethol yn flaenor yng Nghapel Glasgoed yn 1883, ond ymfudodd i Valentia yn 1900. Byddai’n ddiddorol cael gwybod mwy o’i hanes.

Hanes Teulu Tŷ Gwyn a Chae Rhydau

- a’r cysylltiad a Bob Owen, Croesor

Ymhellach i ymateb Dilys Roberts yn rhifyn mis Chwefror o’r Eco, mae Alun Hughes, Dinorwig, wedi ymateb ac anfon y llun hwn o’r teulu sy’n dyddio o’r 1930’au. Diolch hefyd i Mair Jones,

Llety’r Wennol, [Tŷ Gwyn gynt] am esbonio’r berthynas. Mae’n amlwg fod cysylltiad agos iawn rhwng teuluoedd Tŷ Gwyn a Chae Rhydau.



O’r chwith –Taid Alun Hughes, Dinorwig a Gwyndaf Hughes, Llanrug, sef William Jones (brawd Nel); Katie (bu’n brifathrawes yn Nant Gwynant, ac yn athrawes ysgol Sul yng Nghaeathro yn y 1970au); Annie (nain Alun); Tudwen; Ceri; Gwilym.

Meddai Alun, “symudodd hen deulu Nel i Gaeathro, o ardaloedd Garn Fadryn a Llaniestyn, Llŷn, ar ddechrau’r 1800au. Mi oedd Nel yn chwaer i fy nhaid, William Jones. Dyma englyn a oedd ar gof plant ola’ Cae Rhydau, sydd i gyd wedi mynd bellach :

Sion Ifans a Sian hefyd, wedi mynd
Nid mwy i ddychwelyd
Siwrnai bell dros sarnau byd
I wynfyd tragwyddolfyd.

“ond sydd yn dal yn fy nghof i”, meddai Alun Hughes. Mi oedd yr englyn wedi ei sgwennu ar fedd y ddau ym mynwent Penllech, Tudweiliog, nôl ym Mhen Llŷn, ond sydd bellach ar goll.

Ysgrifennodd Gwilym Jones, Brynrhydd, Edern, (mab William Jones, ac ewythr i Alun) am hanes ‘yr hen grwtch’ yn un o gylchgronau’r Wesleaid rhywbryd. A oes rhywun gyda chopi ?

Meddai Mair : “ Daeth hen hen daid fy mam i fyw i Gaerhydau o ardal Tudweiliog, yn was i William Owen, Prysgol (cyfansoddwr y dôn ‘Bryn Calfaria’) am ei fod yn arbenigo ar godi teisi gwair ac ŷd yn null Pen Llŷn. O dipyn i beth priododd mab Caerhydau - Richard

Jones, â merch Tŷ Gwyn, Jane Jones. Roedd Jane wedi ei geni yn Prysgol Isaf a symudodd i Dŷ Gwyn pan yn dair oed. Dyna’r teulu diwethaf i fyw yn Prysgol Isaf. Mae’r adfeilion i weld o hyd.

“Cartrefodd y ddau yn Nhŷ Gwyn a ganwyd iddynt saith o blant : Kate 1886, Richard 1887, William 1883, Rolant 1890 (bu farw yn 1892), Maggie 1894, Evan (fy nhaid)1894 a Nel 1896. Y chwaer hynaf, Kate, oedd yn nain i Alun (Monfa) a Dilwyn (Bethel), Gwyn Griffiths (Llanrug) a Rhian (Derwynfa gynt, Bethel rŵan)

“Priododd William (taid Alun a Gwyndaf Hughes) ac Evan â dwy chwaer o Gaer Berllan, Garn Fadryn, sef Annie a Jane. (Daeth fy nain, Jane, neu Jinw fel yr oedd yn cael ei galw, i fyw at ei chwaer i Gae Gwyn, Ffordd Bethel, Caernarfon pan ond yn ddeuddeg oed gan fod gan Anti Bet bedwar o hogiau ac yr oedd nain wrth ei bodd yn ei helpu. Symudodd Anti Bet i Orffwysfa, Waunfawr. Roedd yn nain i Rhian a Bryn a hefyd Selwyn a Gwyneth, garej Caeathro gynt.)

“Y ferch ieuengaf oedd Nel ac aeth i weini i’r Wern, Llanfrothen a phriodi wedyn ag Yncl Bob (Owen) ac yn byw maes o law yn Ael y Bryn, Croesor. Mi welais fod llyfrau ymhob man - hyd yn oed yn y gegin. Yr oeddwn wrth fy modd ac ar ôl gadael yr ysgol cefais waith yn Llyfrgell y Coleg ym Mangor. Cofiaf Bob Owen yn darlithio yno a dod i chwilio amdanaf i’r Llyfrgell a bloeddio “Ydi Mair yma ? “. Sibrwd oedd pawb arall wrth gwrs. Amser difyr iawn.”

Llanberis yn Awstralia

Mae dau le o’r enw Llanberis yn Awstralia, un ar ynys Tasmania, a’r llall yn nhalaith Victoria. Ardal amaethyddol yn agos i le o’r enw Hollow Tree, i’r de o dref Bothwell yw’r un yn Tasmania. Does wybod pwy fu’n gyfrifol am ei enwi.

Llanberris Reserve (efo dwy ‘r’) yw’r diriogaeth yn agos i Ballarat yn nhalaith Victoria. Mae wedi ei enwi ar ôl y Llanberris Quartz Mining Company a ffurfiwyd ar y 1af o fis Medi 1858 gan 16 o fwynwyr, ac a fu’n gwmni gweithredol am dros 50 o

flynyddoedd. Ychwanegwyd yr ail ‘r’ mewn camgymeriad gan gofrestrydd mwynfeydd y dalaith – ac arhosodd, gan mai dyna’r enw swyddogol a chyfreithiol unwaith iddo gael ei gofrestru! Mae’n adlewyrchu’r ffaith fod cymaint o fwynwyr a chwarelwyr o Gymru wedi chwarae rhan flaenllaw yn natblygu’r diwydiant cloddio am fwynau yn y dalaith. Tybed a oedd mudwyr o’r ardal hon wedi bod yn rhan o’r datblygiad hwn, ac a oedd rhai ohonynt ymhlith yr 16 a fu’n gyfrifol am sefydlu’r cwmni gwreiddiol?

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro’r “Eco”, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)
e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

Merched y Wawr Daeth criw da o aelodau'r gangen ynghyd i ddathlu Gŵyl Ddewi yn Nhafarn y Bont, Porthaethwy, ar nos Fercher, Mawrth 9fed. Wedi pryd blasus cafwyd orig ddiddan iawn yng nghwmni Mair Tomos Ifans. Roedd pawb yn mwynhau gymaint yn gwrando arni'n canu, darllen ambell gerdd ac yn ein diddanu gyda'i hanesion hwyliog, nes ein bod yn amharod iawn i adael pan gyrhaeddodd y bws i fynd â ni am adref. Noddwyd yr adloniant gan gynllun 'noson fach allan'.

Enillwyr lwcus y raffl oedd Delyth, Eirlys a Bet.

Clwb Bro Bethel Dathlu Gŵyl Ddewi oedd yr aelodau yng nghyfarfod mis Mawrth a hynny yng nghwmni plant yr Ysgol a chafwyd gwledd o adloniant gan holl blant yr Ysgol ac hefyd Adran Bentref yr Urdd. Diolchwyd i'r athrawon a hyfforddwyr Adran yr Urdd gan y Parchedig Marcus Wyn Robinson a chyflwynwyd rhodd ariannol fel gwerthfawrogiad o'r cyfan. Bydd cyfarfod mis Ebrill yn

Festri Cysegr gyda Twm Elias yn ŵr gwadd.

Cymdeithas Lenyddol Gerwyn James oedd y gŵr gwadd y mis yma ac, yn dilyn croeso gan Lywydd y noson Richard Lloyd Jones, cawsom sgwrs ddiddorol a dadleuol iawn ar y testun 'Plant y Rhyfel Mawr 1914 -1918'. Deallwyd fod plant Ysgolion Cynradd wedi cyflawni cymaint i fod yn rhan mor bwysig o ymdrech y rhyfel. Cawsom enghreifftiau o blant Ysgolion Môn yn ymgymryd â gwahanol

weithgareddau megis dosbarthu taflenni yn cyhoeddi cyfarfod i annog bechgyn ifanc i ymuno â'r fyddin, aelodau o'r YWCA yn gweu sgarffiau a menig i'r milwyr a chlywed am blant yn casglu wyau i'r milwyr clwyfedig.

Y swper pentymor fydd yn cloi gweithgareddau'r Gymdeithas am eleni a gofynnwyd yn garedig iawn, er mwyn hwyluso'r trefniadau, i roi gwybod i Nora neu Glenys erbyn Ebrill Sed. os am fynychu'r swper.




Sothach Angylion Kelly a ddaeth yn ail yn y sir o dan 19



Gwallgofdy

Angylion Kelly.

Llongyfarchiadau i'r holl enethod fu'n cystadlu yn eisteddfodau cylch a sir yr Urdd yn ddiweddar. Bydd Grwp y Gwallgofdy yn



lowri jones yn ennill y gystadleuaeth o dan 19 yn mynd i Flint.

cynrychioli'r Adran bentref yn yr Eisteddfod Genedlaethol wedi eu llwyddiant yng Nghricieth.

Caffi Gorau Cymru

Ganol fis Mawrth daeth y newyddion fod Caffi Pete's Eats, Llanberis wedi ennill gwobr Caffi Gorau Cymru mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd dan nawdd Wales Online. Roedd gwahoddiad i unrhyw un anfon enw er mwyn cael pleidleisio – hynny yw, nid beirniaid 'swyddogol' oedd yn penderfynu, ond pleidlais gyhoeddus gan aelodau'r cyhoedd. Roedd pump o gategorïau i gyd, a Pete's Eats enillodd y mwyafrif o'r pleidleisiau yn adran y Caffi Gorau. Roedd pleidleisio yn cael ei gynnal rhwng 22ain o Chwefror a'r 4ydd o Fawrth. Mae ennill yn golygu fod Pete's Eats wedi ennill gwerth £1,000 o hysbysebu ar Wales Online. Mae tystysgrif arbennig wedi ei chyflwyno iddynt hefyd i'w harddangos yn y caffi.

Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu Cynllun Strategol am y flwyddyn sydd i ddod, fel adolygiad blynyddol o'r Cynllun Strategol 2013-17.

Pwrpas y cynllun yw gosod gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor a disgrifio'r hyn bydd y Cyngor yn ei wneud er mwyn eu cyflawni.

Mae'r Cynllun Strategol yn nodi 16 amcan ar draws saith maes - dyma'r meysydd bydd y Cyngor yn canolbwyntio arnynt dros gyfnod y cynllun fel rhan o'r weledigaeth o sicrhau'r gorau i bobl Gwynedd mewn cyfnod anodd.

Dywedodd y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd Cyngor Gwynedd:

"Mae'r Cynllun Strategol yn disgrifio'r gwahaniaeth mae'r Cyngor yn dymuno ei wneud erbyn 2017 ac yn esbonio sut bydd y Cyngor yn mesur effaith ei waith dros y bedair blynedd.

"Mae'r meysydd o fewn y cynllun yn amrywiol iawn - o'r economi, i fyd addysg, i sicrhau'r gofal gorau bosibl i'n pobl a'n plant fwyaf bregus. Mae sicrhau fod ein cymunedau'n ddiogel a bod yr iaith Gymraeg yn cael lle haeddiannol o fewn ein cymdeithas yn gwbl greiddiol hefyd.

"Rydw i'n croesawu'r adolygiad hwn - mae'n hanfodol fod y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar y meysydd pwysig hyn er gwaetha'r sefyllfa ariannol heriol rydym yn parhau i'w wynebu."

I ddarllen y cynllun yn llawn, ewch i wefan Cyngor Gwynedd: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cynllunstrategol>

Trigolion Caeathro yn dod ynghyd i gasglu sbwriel

Daeth 22 o wirfoddolwyr brwdfrydig Caeathro o bob oed at ei gilydd yn ddiweddar i geisio gwella safon eu hamgylchedd trwy hel sbwriel o gwmpas y pentref.

Gyda chyfarpar gan gynllun Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, aethant ar hyd nifer o lwybrau'r ardal i gasglu'r gwastraff a thwtio gan gasglu dros 20 o fagiau yn llawn o sbwriel. Ymhlith y sbwriel darganfuwyd eitemau annisgwyl wedi eu taflu i'r dryslwyn gan gynnwys cadair, ffin symudol a wig gwallt!!

Meddai Swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, Jonathan Neale: "Mae'n grêt gweld pobl leol yn mynd ati i wella eu cymunedau. Mae mentrau o'r math yma yn aml iawn yn ysbrydoli mwy o bobl i gymryd rhan, a gwneud i eraill feddwl eto am eu hymddygiad anghyfrifol. Diolch i'r trigolion lleol am drefnu'r gwaith yma."

Meddai'r Cynghorydd Cymuned Hannah Hughes, a fu'n trefnu'r gwaith casglu sbwriel yn Caeathro:

"Roedd nifer o bentrefwyr Caeathro wedi'i ffeiddio o weld cymaint o sbwriel o gwmpas y pentref ac yn dilyn trafodaeth gyda Swyddog Trefi Taclus y Cyngor, daeth nifer o wirfoddolwyr ynghyd. Siomedig iawn oedd gweld fod gymaint o bapurau, bagiau a photeli ond hefyd roedd gweld fod rhai yn tipio yn y pentref yn peri syndod i bawb.

"Mae'r ymateb gan drigolion Caeathro wedi bod yn gadarnhaol iawn gyda nifer wedi rhoi eu henwau ymlaen i wirfoddoli yn y dyfodol. Mae'n galonogol iawn gweld preswylwyr Caeathro yn mynd ati i wella safon weledol y pentref trwy gasglu sbwriel. Mae gennym bentref taclus ar y cyfan ond, fel pob ardal o'i fath, mae yna fannau problemus allan o'r golwg ble mae rhai anghyfrifol yn cymryd mantais. Diolch yn fawr iawn i'r trigolion brwd o bob oed a fu allan yn tacluso fore Sul."

Os hoffech chi gychwyn grŵp cymunedol eich hun i wella safon eich amgylchedd lleol, cysylltwch gyda Swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd am becyn cymunedol. Am fwy o wybodaeth am gynllun Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, cysylltwch â'r tîm ar 01766 771000neu anfonwch e-bost i trefitaclus@gwynedd.gov.uk

Cais i'r Cyngor Cymuned

Yn gyson o fewn cloriau Eco'r Wyddfa ceir adroddiadau manwl am weithgareddau C.C. Llanrug a Chwm y Glo, Llanddeiniolen a Llanberis, ac ers tro bellach dim adroddiad o Gyngor Cymuned y Waunfawr a Chaeathro. Mae ceisiadau wedi dod i law am adroddiadau, felly gofynnir yn garedig i'n cynghorwyr i gywiro hyn gan gysylltu â gwefan yr Eco neu â Rhannon Roberts ar rhannonmai@btinternet.com Llongyfarchiadau mawr i Sion ac Anna Williams, Y Wern, ar enedigaeth eu merch fach, Martha, a dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Hefyd i Mr Elwyn Griffith, Erw Wen sydd wedi dathlu ei ben-blwydd yn 98 oed yn ddiweddar a Mrs Zonia Bowen sydd yn dathlu pen-blwydd yn 90 oed fis Ebrill.

Tynfa Misol Dyma enillwyr mis Mawrth: £40 (12): Zonia Bowen, Cefn Coed; £25 (80): Mark a Linda, T? Newydd; £15 (32): Llinos Griffith, Eryl Cottage; £5 David Jones, 1 Bryn Gof.

Casglu sbwriel O ganlyniad i ymdrech arbennig ar Fawrth 20fed mae ein pentref yn lân a thaclus ar gyfer y Pasg. Diolch yn fawr i bawb fu'n casglu.

Profedigaeth Ar Fawrth 15ed bu farw Mrs Eluned Hughes,

Mae pobl sy'n lluchio sbwriel yn ddifeddwl mewn unrhyw fan cyhoeddus yn cyflawni trosedd. Gall person sy'n ei gael yn euog o daflu sbwriel dderbyn dirwy o hyd at £2,500.

I adrodd am unrhyw achos o dipio anghyfreithlon, cysylltwch â thîm Gorfodaeth Stryd Cyngor Gwynedd ar 01766 771000.

Mae'r cynllun Trefi Taclus wedi ei ariannu gan grant Llywodraeth Cymru fel rhan o gynllun gyda'r nod o wella ansawdd yr amgylchedd lleol.



Tyddyn Bach, yn 93 mlwydd oed. Wedi'r gwasanaeth yng Nghapel Glanrhyd fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Cefnfaes, Rhos Isaf. Estynnwn ein cydymdeimlad â Eirian, Eifion ac Elin a'r teulu oll yn eu colled a'u hiraeth.

Ocsiwn Ar nos Wener, Ebrill 15ed, yng Nghlwb Rygbi, Caernarfon, cynhelir ocsiwn i godi elw i Gylch Meithrin ac Ysgol Bontnewydd. Dechreuir am 7 o'r gloch a bydd Dafydd Hardy yn arwerthu, ymysg llawer o eitemau, brint o waith Kyffin Williams. Croeso i bawb.

Bore Coffi Dewch draw i'n bore coffi cymunedol ar ddydd Sadwrn, 16eg o Ebrill, rhwng

10.30 y bore a 12pm. Mae'n cael ei gynnal yng Nghanolfan Y Capel yng nghanol y pentref, Caeathro, ac mae croeso i bawb. Dewch draw am goffi, te a chacennau cartref. Bydd yr holl elw o'r bore yn cael ei roi i'r elusen Cancer Research UK. Am fanylion pellach mae croeso i chi gysylltu â Hannah Hughes ar 07816316236

Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro Enillwyr Mawrth: (12) £40 - Zonia Bowen, Cefn Coed; (80) £25 - Mark a Linda Jones, Tŷ Newydd; (32) £15 - Llinos Griffith, Eryl Cottage; (53) £5 - David Jones, 1 Bryn Gof.

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**

3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5

Gwasanaethau y Capel

Ebrill 3ydd: 2.00 o'r gloch, Y Parchedig Marcus Wyn Robinson.

Ebrill 17eg: 2 o'r gloch, Y Parchedig Huw Dylan Jones. Clive James fydd llywydd y mis a Iona Ceiriog fydd yr organyddes.



Merched y Wawr

Merched y Wawr Nos Fawrth, Mawrth yr 8fed ,estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Menna Williams. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan rai o'r aelodau a chydymdeimlwyd â Bethanne ac Idwal ar golli perthynas agos ac â Menna ar golli ei chwaer. Dymunir diolch i bob aelod o'r gangen am eu cyfraniad yng Nghaffi'r Urdd a diolch arbennig i Bethanne, Eirianwen a Nan am eu gwaith caled drwy'r dydd. Diolch hefyd i Ann Lloyd a Megan am ofalu am y Beirniaid. Ar Mai 14eg cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth yn Ysgol Friars Bangor. Dylai'r arian o £22 fod wedi'i dalu bellach i'r Trysorydd, Pat.

Cynhelir cystadlaethau Gŵyl Haf ar Mai 21ain yn Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth. Y Cystadlaethau Crefft yw:

a) Uwchgylchu / Ailgylchu gan greu eitem newydd (unrhyw gyfrwng) gan ddefnyddio hen ddillad, gemwaith, llestri ayyb);

b) Eitem yn defnyddio unrhyw ran neu'r cyfan o Anthem y Mudiad, e.e. 'Ein hiaith a'n gwlad, Fe'i caraf fwy a mwy';
c) Tylluan (unrhyw gyfrwng);
ch) Coginio – 4 teisen gri siap calon.

Llongyferchir Meirwen Lloyd ar ei henwebiad fel Is-Lywydd Cenedlaethol y Mudiad. Rydym fel cangen yn falch iawn ac yn dymuno pob lwc iddi. Pob dymuniad da hefyd i Mary Roberts yn y bleidlais i ddewis Is-Ysgrifennydd 2016-18.

Dymuna Tegwen Morris, Cyfarwyddwr Cenedlaethol, longyfarch pawb am y gwaith

arbennig gydag ymgyrch 'Ategolion at y Galon'. Fe fu'r Mudiad yn ffodus iawn o ennill y brif wobr am godi arian mewn ffordd arloesol yng ngwobrau WCVA Cymru a dymunir diolch i bawb am gyfrannu, prynu a chefnogi.

Anogir pob cangen i ddechrau chwilio am lyfrau lloffion, lluniau, rhaglenni cynnar ayyb gan ein bod yn cychwyn paratoi ar gyfer 'Dathlu'r Aur' yn 2017. Bydd nifer o ddigwyddiadau cyffrous y flwyddyn nesaf a llawer o weithgareddau i ddatlu'r hanner canmlwyddiant.

Yn ddifyr iawn cafodd Meirwen Lloyd hyd i raglen cangen Merched y Wawr Llanrug o 1975-76 gyda Mrs Evans, Lloc, yn Llywydd; Is-Lywydd oedd Mrs Whiteside Thomas; Ysgrifennydd – Ann Lloyd; Is-Ysgrifennydd – Margaret Jones; Trysorydd – Siân Williams; Is-Drysorydd – Mrs Jones Ogwen a Dosbarthwr y Wawr oedd Mrs E. Rowlands. Yna darllenodd Meirwen enwau'r gwesteion i gyd am y flwyddyn 75-76.

I ddatlu Gŵyl ein Nawddsant bu aelodau'r pwyllgor yn brysur yn paratoi arlwy ar ein cyfer gyda lluniaeth o'r sawrus a'r melys a llymaid arbennig i goroni'r dathlu. Dymuna pawb ddiolch i Nan a'i chriw am y wledd. Roedd pawb wedi mwynhau'r cyfle i gymdeithasu. Enillydd y raffl oedd Avril.

Ar Ebrill 14eg fe fydd Dafydd Jones Morris yn sôn am ei 'Yrfa o fewn y Gwasanaeth Ambiwylans yng Nghymru'. Argoelir noson ddifyr dros benderfynol

Plaid Cymru Enillwyr y Clwb Cant

Chwefror: 1. John Morris, Llanuwchllyn; 2. Meirwen Lloyd.

Mawrth: 1. Leslie Larsen; 2. Einir Gwyn.

Profedigaeth Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr a Mrs Dafydd Roberts, Glanffynnon, yn eu profedigaeth fawr iawn o golli eu mab, Geraint Rhys, yn ddiweddar. Roedd Geraint yn byw yn Tamworth gyda'i deulu ond yn frodor o Blaenau Ffestiniog. Estynnwn ein cofion anwylaf atynt.

Gyda thristwch y daeth y newydd trist am farwolaeth Mr Lewis J. Roberts, Minafon, Tanycoed. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'i chwaer Miss Enid Roberts a'r teulu. Byddwn yn gweld colli ei gymeriad hwyliog ac annwyl o gwmpas y pentref.

Pen-blwydd hapus i Gwion Llwyd, Glasgoed, fu'n dathlu ei ben-blwydd yn 40 oed ar Fawrth 31ain.

Diolchiadau Dymuna Lilian a Dafydd Roberts, Glanffynnon, Llanrug, Ann ac Elwen, ddiolch yn ddiffuant i'w cyfeillion a chymdogion am y caredigrwydd a phob arwydd o gydymdeimlad a

ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Geraint Rhys, mab a brawd annwyl yn Tamworth. Diolch am yr holl gardiau, llythyrau a galwadau ffôn, ac am y cyfraniadau hael at y Groes Goch.

Genedigaeth Llongyfarchiadau i Iola Non ac Urien Huws, Pen Cae, ar enedigaeth eu merch fach Aria Glwys ym mis Chwefror. Wyres fach arall i Jade a Harry, Glanffynnon, gan gofio hefyd am nain a taid Deiniolen.

Capel y Rhos Yn oedfa bore Mawrth 6ed derbyniodd y gweinidog ddau aelod newydd, sef Mr Hywel a Mrs Susan Williams, 5 Pen Cae. Roeddynt yn aelodau yng nghapel Hyfrydle, Caergybi, cyn symud i Lanrug. Croeso mawr i'n plith.

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Charles Wyn Jones ar ennill gradd mewn diwinyddiaeth (B.Th.) gyda chlod oddi wrth Athrofa Diwinyddol De Affrica. Mae hyn yn dilyn cymwysterau blaenorol enillodd yn y maes o Brifysgol Swydd Gaerloyw a Choleg Diwinyddol Saint John's Nottingham. Dymuniadau gorau iddo yn ei waith eglwysig yn yr ardal.

Oedfaon mis Ebrill

3: Y Gweinidog, Y Parch Marcus Robinson

10: Mr Robert Morris

17: Y Gweinidog

24: Y Parch Eric Jones



KERFOOTS EST 1874

136-140 HIGH STREET, PORTHMADOG, GWYNEDD. LL49 9NT

Ref:- ECW

Dewch draw i'r Siop am sbec – mae rhywbeth i bawb yma!
Gorffenwch eich ymweliad a phaned, teisen neu bryd o fwyd blasus mewn awyrgylch hamddenol.

=====

DISGOWNT O 10% WRTH GYFLWYNO'R HYSBYSEB YMA AR NWDYDDAU O'R SIOP, NEU FWYD A DIOD O'R TY COFFI.
(Ni chaniateir ei ddefnyddio gyda unrhyw gynigion arall sy'n bodoli ar y pryd)

=====

www.kerfoots.com

enquiries@kerfoots.com

Tel: 01766 512256



ORIEL CWM

CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio lluniau o bob math ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys

Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Newyddion yr Ysgol Gynradd



Bu tîm nofio yr ysgol yn fuddugol yng Ngala Nofio Arfon ar y 25/2/16. Cyflwynwyd y darian gan Mari Davies aelod o dim nofio Cymru. Da iawn chi blant!



Meithrin a Derbyn. Rydym wedi bod yn dilyn y thema 'cuddfannau', ac wedi mwynhau mynd ar daith o amgylch tir yr ysgol yn darganfod cuddfannau newydd. Cawsom hefyd gyfle i fynd ar daith i Gastell Penrhyn i wneud ein cuddfannau ein hunain.



Beicio. Mae'r ysgol yn rhan o gynllun 'Beicio i'r Ysgol'. Daeth Gwen Thomas, Sustrans, i'r ysgol i roi gwersi beicio i bawb flwyddyn 1 hyd flwyddyn 6.



Dydd Gwyl Ddewi. Bu'r ysgol yn dathlu drwy wisgo dillad coch a chanu caneuon Cymraeg. Diwrnod y Llyfr. Daeth pawb o Gyfnod Sylfaen mewn gwsg cymeriad o lyfr, a bu plant yr Adran Iau yn cyfnewid llyfrau. Pel-Rwyd. Bu genethod Blwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn twrnameint. Eisteddfod yr Urdd. Cafwyd nifer o lwyddiannau yn yr Eisteddfod Cylch a hefyd yn Adran Celf y Cylch. Yn ddiweddarach, bu'r canlynol yn llwyddiannus yn yr Eisteddfod Sir:
Dawnsio Gwerin bl 3 a 4 3ydd
Dawnsio Gwein bl 5 a 6 2ail
Llefaru bl 5 a 6 Nel Gwilym 3ydd
Unawd telyn Erin Gibbard 3ydd
Gyda diolch i staff yr ysgol a'r rhieni a fu'n cynorthwyo a hyfforddi fel bo'r plant yn derbyn profiadau amrywiol a chyfoethog, ac yn cefnogi gwaith yr Urdd.



Blwyddyn 1 a 2. Daeth Mr John Grisdale atom i roi cyflwyniad hynod ddiddorol am y Tim Achub Mynydd. Roedd hyn yn rhan o'r thema 'Archarwyr'. Aethom hefyd ar ymweliad â Gorsaf Dân Caernarfon lle cawsom groeso twymgalon a dysgu am eu gwaith caled. Diolch i Lance am gefnogi'r gwaith yn yr ysgol. Ar Ddiwrnod y Llyfr cafodd pawb wisgo fel cymeriad o'u hoff lyfr. Blwyddyn 5 a 6. Bu PC Dylan Pritchard yn rhoi sgwrs am ymddygiad priodol. Daeth Mrs Linda Jones, Swyddog Llêr, i roi sgwrs ar Fwlio. Cafwyd sesiwn fuddiol iawn.

CEISIO AM WOBR ARLUNIO



Barbara hefo y goleuada nos i blant

Rydym yn gyfarwydd ers sawl blwyddyn bellach â chrochendy Piggery Pottery ar Ffordd Llanberis. Mae'n 32 o flynyddoedd bellach ers i Barbara ac Ian Winrow sefydlu'r busnes ar dir Y Glyn, Llanberis. Roeddent wedi sefydlu'r busnes gwreiddiol mewn cytiau moch wedi eu addasu ym mhentref Epworth yn Swydd Efrog, a dyna esbonio enw'r cwmni.

Roedd Barbara wedi sefydlu'r cwmni yn syth ar ôl gadael Coleg Celf Lerpwl ble bu'n canolbwyntio ar agweddau o grochenwaith. Yn ei blwyddyn olaf cipiodd wobwr John Moores yn y coleg, a gyda'r wobwr ariannol o £200 crwydrodd wledydd Llychlyn yn astudio gwahanol agweddau o grochenwaith y gwledydd hynny.

Fel busnes roeddent yn cynhyrchu nifer o wahanol 'oleuadau nos' i blant ifanc. a gwahanol fathau o gadw-mi-gei. Roedd y cynnyrch yma yn hynod boblogaidd, gyda hyd yn oed siop fawr Harrods ymysg eu cwsmeriaid.

Cynnyrch poblogaidd arall erbyn hyn yw'r amrywiol blatiau a gynhyrchir gan Barbara. Mae'r platiau yn cofnodi manylion personol yn ymwneud â phriodasau, bedydd a gwahanol ben-blwyddi priodasol.

Bymtheg mlynedd yn ôl symudodd y



Llun o'r siop yn y crochendy

cwmni o'r Glyn i'r safle presennol yng Nghwm y Glo a thros y blynyddoedd mae'r adeiladau wedi cynyddu gan gynnwys siop, caffi a mangre adloniant i blant ac ymwelwyr. Yma mae'n bosibl creu a phaentio eich potiau unigol.

Hyd yn ddiweddar roedd canolfan marchogaeth ynghlwm â thir y busnes. Byddai ceffylau yn dod yno i ymarfer, a chynhaliwyd sawl cystadleuaeth neidio yno.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf mae Barbara wedi ail-gydio yn ei diddordeb mewn arlunio. Natur, a gwahanol flodau a phlanhigion yn arbennig, yw ei phriod faes. Y mae manylder ei gwaith yn anhygoel. Mae hefyd yn cydnabod dylanwad William Morris, un o brif arlunwyr Natur arni. Mae yn gwneud cryn ymchwil cyn mentro cychwyn darlun i wneud yn siŵr fod y gwahanol flodau a phlanhigion yng nghyswllt cywir y darlun ar greu.

Yn ystod fy nghyfweliad â hi cefais wybod llawer am y defnydd a wnaed o wahanol blanhigion i wrthsefyll sawl anhwylder a salwch.

Tra roeddwn i'n cyfweld Barbara dangosodd ei gwaith cyfredol i mi. 'Gwartheg' yw'r teitl ac yr oedd manylder y planhigion yn anhygoel. Mae'r llun



Y llun mae wrthi'n gweithio arno ar hyn o bryd

anorffenedig eisoes wedi cymryd tri mis. Fe'i gwneir mewn du a gwyn i ddechrau gan ddefnyddio brws mân, ac yna mae'n lliwio'r y gwahanol blanhigion.

Yn y misoedd diwethaf mae Barbara wedi arddangos ei gwaith yn Oriel Pen-sychnant, Conwy; yng Nghanolfan Ucheldre, Caergybi ac yng Nghanolfan Storiol Bangor.

Ond, mae elfen gystadleuol i waith Barbara hefyd. Mae dau brosiect yn denu sylw ar hyn o bryd. Ym maes arlunio mae hi wedi cystadlu yng nghystadleuaeth Arlunio John Moores. Cynhelir y gystadleuaeth bob dwy flynedd ac mae'n agored i'r byd a'r betws ar unrhyw agwedd o arlunio. Eleni, mae 3000 wedi cystadlu ac eisoes mae Barbara wedi cael clywed ei bod wedi cyrraedd y 300 gorau. Go dda ynte, ond rhaid aros rhyw fis eto i weld a fydd hi ymysg y goreuon.

Mae Barbara hefyd wedi creu crochenwaith ar gyfer y gystadleuaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Gobeithio y gallwn ei gweld ym Mhabell Celf a Chrefft yn y Fenni.

Dymunwn yn dda iddi yn y ddwy gystadleuaeth.

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"

DIONI
<http://dioni.co.uk>
 tel: 01341 247 200
 ebost: gwion@dioni.co.uk

GERAINT OWEN
CARPEDI

CARPEDI • VINYLs • TEILS
 CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Hyn ac Arall Mynydd! Dyna chwi beth ydi Mynydd!

Y mis diwetha bu imi eich gadael efo cwestiwn, ac o bosib yn gwenu o glust i glust. Ia! Dyna fo! Am wn i, cwestiwn pryfoclyd ydoedd o hefyd, sef pwy ohonoch chwi a welodd wiwer goch neu lwyd ar ben yr Wyddfa? Wyddoch chwi beth a gafwyd ar Siffacs Cymru ddydd Llun, Hydref 1af, y flwyddyn 2012, ia, hanes gwiwer lwyd a geisiodd gartrefu (wedi darganfod bod yno fwyd si?r braidd i chwi!) a hynny yn y Ganolfan Ymwelwyr ar ben yr Wyddfa. Fe'i gwelwyd yn yr ystafell fwyta. Dywedir bod defaid, llygod, a hyd yn oed llyffantod i'w gweld ar lechweddau'r Wyddfa, ond sut gebyst ddaeth hi, y wiwer lwyd, yno? Hefo'i thraed, neu dyfod mewn steil ar y trên bach?

Daw hyn â ni at destun y mis hwn Ebrill! Ia! Teithio! Gwn am y profiad yn iawn! Ysu am gael mynd. Diolch o waelod calon fy mod i'n medru symud a bod geni draed.

Dyma hanesyn gan awdur di-enw, a gynhwyswyd yng nghylchgrawn eglwysig Yr Haul mis Awst 1909, sy'n peri imi wenu bob tro yr af ati i'w ddarllen:

Yng ngodre Cwm Llan daeth bonheddwr o hyd i fugail a gofynnodd y ffordd i ben yr Wyddfa.

Mi fyddai'r cyfaill Gareth R., dyn ffotograffau'r sêr, ar ben ei ddigon petai o'n byw'n yr amser hwn, oherwydd fe ellid bod wedi dal ar gyfle i werthu map o'r ardal i'r ymwelydd.

'Rwy'n mynd beth o'r ffordd i fyny,' ebe'r bugail, 'Ac fe'i dangosaf i chwi.'

Aeth y ddau yn eu blaenau a'r gŵr diarth yn holi a'r Cymro'n ei ateb. Yna, daeth copa'r Wyddfa i'r golwg. Dechreuodd y dieithryn holi beth oedd ar ei phen.

'Wel,' ebe'r bugail, 'Fûm i erioed yno. Rwy wedi bod dros Fwlch y Saethau, fwy na hanner y ffordd, lawer gwaith, ond fûm i erioed ar ei phen hi.'

'Rioed wedi bod ar gopa'r Wyddfa!' meddai'r dyn diarth wrtho, ac aeth ati i ddweud y drefn. Ia! Ynte! Ond dyna pryd y gofynnodd y bugail iddo o ble y daeth.

'O Lundain,' ebe'r bonheddwr. 'Ac wedi dyfod yma'n unswydd i weld golygfeydd a ddiystyrir gennych chwi.'

A dyma'r bugail yn gofyn iddo, 'Fuoch chwi ar ben eglwys gadeiriol Sant Paul erioed?'

'Naddo,' atebodd y Sais.

'Wel, fe fûm i,' esboniodd y bugail, gan ei fod o hefyd yn gwybod o brofiad mai mawredd llychlyd, myglyd, du a welir o ben S. Paul.

Ymhen deng mlynedd cofnodwyd hanesyn ynghylch taith i ben yr Wyddfa. Dyma beth sy'n Yr Herald Cymraeg Medi 23ain 1919.

Bu i Safon 7 Ysgol y Cyngor, Penygroes (35 disgybl i gyd) hefo eu hathrawon, gychwyn am 10.30pm ar ddydd Llun o Stryd y Capel ar ben wagen W.W. Owen, a theithio tuag at Rhyd-ddu. Yno, am hanner nos (meddylwch da chwi!) teithiwyd tuag at gopa mynydd uchaf Cymru a chyrraedd y brig am un o'r gloch y bore. Yno, gwelwyd toriad gwawr. Dydd Mawrth, yn union am wyth o'r gloch y bore, dechreuwyd gerdded am Benygroes a chyrraedd adref cyn hanner dydd. Y Prifathro ydoedd Mr Perry.

Unwaith erioed fues i ar ben yr Wyddfa, ond mi roedd o'n brofiad gwerth ei gael. Dernyn bychan o hanes arall ydi hynny bellach, na fydd ei ail-gynnau na'i ail-bobi o gwbl fan yma! Fodd bynnag, os byw ac iach, mi fydda i, mis nesa, yn wirioneddol i chwi, rywle ar yr Wyddfa.

Dafydd Gruffydd Ifan

Diwedd Cyfeillion Marconi?

Sefydlwyd "Cyfeillion Marconi" fel elusen gofrestredig [Rhif 1076066] yn 1998. Mae'r Cyfansoddiad presennol yn ddyddiedig Mai 24, 1999. Ar Wefan y Comisiwn Elusennau gwelir datganiad fod nodau a gweithgareddau'r elusen "to perpetuate the memory of the Marconi Long Wave Transmitting Station on Mynydd Cefndu by ensuring that memorabilia shall be properly preserved and exhibited for the benefit of the public". Ar yr un Wefan gwelir fod amcanion elusennol Cyfeillion Marconi yn debyg iawn i'r nodau uchod. Yn ogystal ac aelodau, mae cyfansoddiad yn darparu ar gyfer deg o ymddiriedolwyr. Hefyd dynodwyd Cynghorau Cymuned Waunfawr a Llanrug, Antur Waunfawr a'r 'Dragon Amateur Radio Club' fel mudiadau gyda statws arbennig.

Yn y cychwyn roedd y Cyfeillion yn gymdeithas brysur. Ond yn anffodus bu lleihad yn y gweithgareddau. Yn 2002 ar y rhestr diweddaraf hysbys roedd 53 o aelodau. Ers nifer o flynyddoedd ni fu unrhyw weithgarwch o gwbl. Yn wir mae Gwefan y Comisiynwyr Elusennau yn dweud fod y Cyfeillion yn "dormant at present".

Yn unol â'r Cyfansoddiad, oherwydd nad oes neb wedi talu eu haelodaeth ers blynnyddoedd, nid oes aelodau. Fel canlyniad nid yw'n bosibl galw Cyfarfod Cyffredinol Arbennig yn unol â'r Cyfansoddiad.

Felly er mwyn trafod dyfodol Cyfeillion Marconi trefnir cyfarfod agored nos Fercher, Ebrill 13, am 7:30 yh yng Nghanolfan y Capel, Caethro. Rhagwelir rhaglen fel â ganlyn:

- ethol Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod
- cytuno ar ddiben y cyfarfod
- adnabod adnoddau'r Cyfeillion
- trafod llwybrau posibl am y dyfodol, gan gynnwys y syniad o ddwyn y Cyfeillion i ben
- argymhell unrhyw gamau gweithredol.

Wedyn yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus bydd cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr a chynrychiolwyr o'r mudiadau gyda statws arbennig yn unig. Disgwylir y bydd eu rhaglen yn debyg i'r uchod ond gyda'r budd o glywed barn y cyfarfod cyhoeddus.

Yn ogystal â gwahodd cyn aelodau o'r Cyfeillion a phobl eraill sydd â diddordeb, bydd gwahoddiad uniongyrchol i'r pedwar mudiad a restrir uchod a'r deg ymddiriedolwr, wedi'u hanfon i'r cyfeiriad diwethaf sy'n hysbys. Dyma'r cyfle (olaf ?) i ddweud eich dweud am Gyfeillion Marconi!

HUW OWEN
PLASTRWR ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN O BROFIAD
Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159
Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG
Eboest- lisa.huw@btinternet.com

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER POB ACHLYSUR
DEWCS MAE O'N FLASUS
PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

North Wales SIGNS
Gogledd Cymru **grid**⁷⁶
northwalessigns.com | 07766956673
Uned A9, Cibyn Ind Estate, Caernarfon
Arwyddion | Cerbydau | Digwyddiad



Gymnasteg

Cystadleuaeth Bachgen Gorau'r Diwrnod (BI 9/10)
1af-Cai Morgan BI.10
2ail – Aled Williams BI.10

Cystadleuaeth Geneth Orau'r Diwrnod (BI 9/10)
2AIL - Elan Davies BI.10
3YDD – Cora de Silva BI.9

Unigolion sydd wedi cael eu dewis fel rhan o Dîm Athletau Dan Do Gogledd Gorllewin Cymru, Cwmbbran, Mawrth 13
Genethod 7/8: Anya Williams; Elain Williams; Natalie Meek.
Genethod 9/10: Elan Jones a Cora de Silva.

Unigolion sydd wedi cael eu dewis fel rhan o Dîm Athletau Dan Do Gogledd Gorllewin Cymru, Cwmbbran, Mawrth 13
Bechgyn 7/8: Cai Llwyd Jones; Celt Moss; Iwan Griffith; Gwion Gruffydd.
Bechgyn 9/10: Ifan Mansoor; Cai Morgan; Aled Williams



Math Roberts

Eisteddfod yr Urdd - cylch Arfon



Parti Merched 7, 8 a 9

Eleni cynhaliwyd yr eisteddfod yn ystod prynhawn a nos iau, Chwefror 25ain. Y beirniaid oedd:

Cerdd – Nia Morgan, Aled Williams, Ann Eluned Jones

Llefaru – Bethan Dobson

Cyfeilydd – Lois Eifion.

Bu disgyblion Ysgol Brynrefail yn hynod o brysur yn cystadlu yn erbyn yr ymwelwyr o Ysgol Syr Hugh Owen a diolch o galon i'r rhai fu'n eu hyfforddi. Diolch hefyd i athrawon yr ysgol am drefnu, arwain a stiwardio'r steddfod ac i Math Roberts, Bl.12 am gyfeilio i Bartion a Chôr yr ysgol. Yn olaf, diolch hefyd i ddisgyblion y chweched dosbarth a fu hefyd yn brysur yn stiwardio, yn gwerthu tocynnau wrth y drws ac yn gwerthu raffl.

Dyma'r canlyniadau:

Unawd Merched Bl 7-9

1af: Cadi Sian Thomas

2il: Heledd Prys

Unawd Bechgyn Bl 7-9

2il: Tomi Brown

Deuawd Bl 7-9

1af: Deio Llwyd a Cadi Sian

2il: Elin a Nel

Unawd Merched Bl10 a dan 19oed

1af: Lleucu Briallt Brookes

2il: Magi Tudur

Unawd Bechgyn Bl 10 a dan 19oed

1af: Gwern Llyn Brookes

Deuawd Bl10 a dan 19oed

1af: Gwern Llyn a Rhidian

2il: Lleucu a Llinos

Parti Merched Bl 7, 8 a 9

1af: Parti Brynrefail

Côr S.A. Bl 7, 8 a 9

1af: Côr Ysgol Brynrefail

Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl 7, 8 a 9

2il: Leisa Gwenllian

3ydd: Tomi Brown

Unawd chwythbrennau Bl 7 – 9

1af: Nanw Llwyd

2il: Esyllt Mon Roberts

3ydd: Heledd Swyn Richards

Unawd Piano Bl 7-9

1af: Heledd Swyn Richards

Unawd Pres Bl 7-9

3ydd: Elen Llestyn Thomas

Ensemble Bl 7, 8 a 9

2il: Parti Brynrefail

Unawd Chwythbrennau Bl10 a dan 19oed

1af: Rachel Franklin

2il: Huw Williams

3ydd: William Lamb

Unawd Piano Bl10 a dan 19oed

1af: Math Roberts

Unawd Pres Bl10 a dan 19oed

1af: Owain Iestyn Thomas

Unawd Cerdd Dant Bl7-9

3ydd: Heledd Prys

Parti Cerdd Dant Bl 7, 8 a 9

1af: Parti Brynrefail

Dawns Werin Unigol i Ferched Bl9 ac iau

1af: Telaid Glain Jones

Llefaru Unigol Bl7 – 9

1af: Leisa Gwenllian

Gr?p Llefaru Bl7, 8 a 9

2il: Parti Brynrefail

Monolog Bl10 a dan 19oed

1af: Magi Tudur

2il: Math Roberts

Unawd allan o sioe Gerddi Bl10 a dan 19oed

3ydd: Gwern Llyn Brookes



Ysgol Gymuned Penisa'r-waun

Llongyfarchiadau mawr i'r Ensemble Offerynnol ar ddod yn gyntaf yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Mae pawb yn dymuno pob llwyddiant i Efa Mabli, Branwen a Lauren yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Fflint yn mis Mai.

Dydd Gŵyl Dewi - Cafodd y plant gyfle i ddod i'r ysgol mewn gwisg yn gysylltiedig â Chymru ar Fawrth 1af. Yn y prynhawn cynhaliwyd pwnn Te Cymreig gan bwyllgor y Neuadd Gymuned gyda phlant yr ysgol ac aelodau'r pwyllgor yn paratoi'r adloniant. Roedd llawer o wahanol bobl o'r Gymuned wedi troi i mewn ac wedi mwynhau eu hunain yn arw. Gobeithiwn gynnal prynhawn tebyg y flwyddyn nesaf.

Diwrnod y Llyfr - Bu'r ysgol yn dathlu'r diwrnod dydd Iau, Mawrth 3ydd. Cafodd pawb gyfle i wisgo fel cymeriad o'i hoff lyfr yn ogystal â thrafod y llyfr yn y dosbarth.

Ymweliad ac Amgueddfa Lechi Llanberis - Fel rhan o'u gwaith thema "Chwareli" treuliodd CA2 brynhawn dydd Mercher, Mawrth 9fed, yn yr Amgueddfa Lechi yn edrych ar amryw o bethau yn ymwneud â'r chwarel. Dychwelodd pawb yno fore Iau, Mawrth 17eg, i wneud gwaith ffilmio, a chawsant gyfle i ddefnyddio eu sgiliau Technoleg Gwybodaeth i greu rhaglen deledu am gartrefi'r chwarelwyr.

Ar yr un prynhawn cafodd disgyblion CA1 gyfle i ymweld â rhes-dai Fron Haul yn yr Amgueddfa fel rhan o'u gwaith thema "Cartrefi". Yn dilyn hyn cerddodd pawb i bentref Llanberis i edrych ar wahanol adeiladau yno. Roedd pawb wedi mwynhau treulio pwnn allan yn yr haul braf cyn dychwelyd yn ôl i'r ysgol i wneud gwaith yn y dosbarth am yr hyn yr oeddent wedi ei ddarganfod yn ystod eu hymweliad.

Ymweliad Plas Menai - Treuliodd disgyblion CA2 ddiwrnod ym Mhlas Menai dydd Mercher, Mawrth 16eg. Cawsant brofiad o feicio mynydd, a chwrws dringo rhaffau. Braf oedd treulio diwrnod yn yr awyr agored yn ogystal â dysgu sgiliau newydd.

Noson Cwis - Trefnwyd y noson gan y "Cyfeillion" nos Fercher, Mawrth 23ain. Cafwyd noson hwyliog yn cymryd rhan yn y cwis a drefnwyd gan Mr Llŷr Rees. Roedd y noson yn gyfle hefyd i ni ffarwelio gyda Mr Rees sydd wedi bod yn Bennaeth yn yr Ysgol am dros bedair blynedd. Diolchwyd iddo am ei ymroddiad i'r ysgol a chyflwynwyd anrheg iddo ar ran y disgyblion, staff a'r Llywodraethwyr i ddatgan ein gwerthfawrogiad, yn ogystal â dymuno'n dda iddo yn y dyfodol.

Gwasanaeth y Pasg - Croesawyd Andrew Setatree i'r Ysgol fore dydd Iau, Mawrth 24ain, i gynnal Gwasanaeth byr ar stori'r Pasg.

Diwrnod Hyfforddiant - Cynhelir diwrnod o hyfforddiant i'r

staff dydd Llun, Ebrill 11eg. Bydd yr ysgol yn ail agor i'r plant ar ôl gwyliau'r Pasg dydd Mawrth, Ebrill 12fed.

Ail gylchu Antur Waunfawr - Diolch i bawb sydd yn dod â dillad ayyb i'r bin ail gylchu sydd yn yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau cyfraniad ariannol i'r ysgol bob tro mae'r bin yn llawn. Daliwch ati !

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen

Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Chwefror oedd Mrs Glenys Williams gyda rhif 55. Llongyfarchiadau .

Cydymdeimlad - Rydym yn cydymdeimlo gyda Mrs Nannie Evans, 26 Bryn Tirion, a'r teulu, wedi iddi golli ei chwaer yng nghyfraith yn ddiweddar, sef Mrs Edith Mai Evans o Gaernarfon.

Grŵp Apêl Uned Cancr a Haematoleg Alaw

Nos Sadwrn, Mawrth Sed, yn Neuadd Tre-Ysgawen, cynhaliwyd Dawns Flynyddol Cennin Pedr Grŵp Apêl Uned Cancr a Haematoleg Alaw. Cafwyd cinio pedwar cwrs ac adloniant gan 'Just Terry'. Llwyddwyd i godi dros £4000 tuag at Uned Alaw trwy elw'r cinio, raffl ac arwerthiant. Noddwyd y noson gan gangen Santander, Llangefni. Yr oedd pedair o staff Santander, Llangefni sef Enid, Katie, Marinna a Claire yn cynrychioli'r gangen ac yn weithgar iawn yn cynorthwyo'r Arwerthwr, Merfyn Williams, Property People. Bydd Santander yn noddi'r noson gan ychwanegu at y £4000.

Yn ystod y noson cyflwynodd Janet Rowlands, Cadeiryddes y Grŵp, siec am £25,000 i'r Athro Nick Stuart ar gyfer cyfarpar i'r estyniad newydd i Ward Alaw.

Ysgol Sul Bosra Dymunir diolch i Mr Evie Jones a'i chwiorydd, Nancy a Dilys, am eu Cyfarchion Pasg ac am y danteithion i'r plant. Diolch hefyd i Andrew Settatree o Gynllun EFE am ddod atom ac am baratoi gweithgareddau difyr i'r aelodau.

Sul y Palmwydd cafwyd stori'r Pasg a chyfle i wneud bag Pasg a chwilio am wyau Pasg wedi'u cuddio o gwmpas y capel. Cafodd pob aelod wy Pasg am eu ffyddlondeb. Bydd yr ysgol Sul yn ail gychwyn y Sul wedi i'r ysgol agor. Pasg Hapus i chi i gyd.

Eisteddfod Bentref Cynhelir yr Eisteddfod nos Wener, Gorffennaf 1af. Cynhelir Pwyllgor nos Lun, Mai 9fed am 7.30 i ddewis testunau a chadarnhau beirniaid yr eisteddfod. Dewch â'ch llyfrau cerdd a barddoniaeth os gwelwch yn dda.

Trefnir bws i 'Noson Lawen' yn Pontio nos Sadwrn, Ebrill 9fed am £8 yn cynnwys mynediad a chludiant. Cymerir rhan gan John Eifion, Trio, Annette Bryn Parri, Siân ac Emyr Gibson ac eraill. Bydd yr elw yn mynd at ein Eisteddfod Bentref. Os oes diddordeb gennych, cysyllter ag Ann Ifans 872407 neu Elizabeth Jones 872421.

Pwyllgor Neuadd Gymuned

Tynnwyd Clwb Cant Mawrth a'r enillwyr oedd Elinor Williams, Bryn Rhydd a Rhian Thomas, Seion, Bethel.

Braf oedd gweld y Neuadd Gymuned yn llawn bnawn Mawrth, Mawrth 1af. Diolchir i chwi rieni, teulu a ffrindiau am ymuno â ni wrth ddathlu ein Nawddsant. Hyfryd oedd gwrando ar y plant Cyfnod Sylfaen yn canu mor swynol am Dewi yn eu gwisg Gymreig ac yn chwifio eu baneri. Bu cyfraniad y Cyfnod Iau yn hynod o ddisgybledig hefyd gyda chyfraniad yr offerynwyr o safon mor uchel. Dymunir llongyfarch 'Ensemble' y genethod am ennill yn yr Eisteddfod Sir a phob lwc iddynt yn y Genedlaethol yn Fflint. Wedi orig hyfryd yng nghwmni'r plant cafwyd cyfle i gymdeithasu hefo 'Te Bach Cymreig' wedi'i drefnu gan aelodau'r pwyllgor. Diolch o galon i staff yr ysgol am eu cydweithrediad arferol ac i Anti Jean am ofalu am y raffl.

Nos Iau, Mai 19eg trefnir 'Miri Mai' gyda diod, cŵn poeth, tombola, gemau a rasys. Cynhelir pwyllgor i drefnu'r gweithgaredd yma ar nos Lun, Mai 9fed am 7.00.

Ein dymuniadau gorau i Mr Llŷr Rees, ar ei swydd newydd fel pennaeth dwy ysgol ym Môn, a diolchir iddo am ei gydweithrediad i Bwyllgorau Neuadd a'r Eisteddfod a hefyd yn achlysurol i'r Ysgol Sul. Croeso cynnes i Catrin Lloyd Roberts fel pennaeth newydd yr ysgol. Edrychwn ymlaen at eich cwmni yn ein amrywiol weithgareddau.



Diwrnod olaf Mr Rees

Parhad PENISARWAUN

Cofeb Cyn Brifathro



Pan ddaeth oes hen Ysgol Tan y Coed i ben, ac agor Ysgol Gymuned newydd yn y pentref, trosglwyddwyd y garreg goffa hon i ofal David Philips a oedd yn un o lywodraethwyr yr ysgol ar y pryd. Ei chadw dros dro oedd y bwriad, ond aeth y 'dros dro' hwnnw yn flynyddoedd bellach, ac y mae David Philips yn awyddus i'r gymuned ym Mhenisarwaun benderfynu beth i'w wneud efo'r gofeb.

Tybed a ddylid ei harddangos ar safle'r Ysgol Gymuned? (Saesneg yw geiriad y gofeb, ac y mae hynny'n naturiol o gofio mai Saesneg oedd iaith ysgolion cynradd y cyfnod hwnnw.

Ond roedd Beuno Jones yn gefnogol iawn i'r Gymraeg, ac oherwydd fod fy nain yn athrawes ym Mhenisarwaun yn ystod ei gyfnod, mae gennyf lun ohonno gydag un o'r dosbarthiadau ar fuarth yr ysgol yn dysgu geiriau Hen Wlad fy Nhadau iddynt, a'r anthem wedi ei hysgrifennu ar fwrdd du o'r tu allan. Golygydd)

Gwynedd yn gartref i dwristiaeth antur

Gyda 2016 wedi'i benodi fel 'Blwyddyn Antur', mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i sicrhau bod busnesau lleol yn medru elwa'n llwyr o'r ffaith fod y sir erbyn hyn yn lleoliad sy'n cael ei adnabod yn rhyngwladol ar gyfer twristiaeth antur.

Mae'r ffigyrau cenedlaethol diweddaraf yn dangos fod twristiaeth yn parhau i dyfu yng Ngwynedd gyda 6,847,000 o ymwelwyr a £975 miliwn wedi'i fuddsoddi yn yr economi leol yn 2014.

Fel rhan o ymdrechion y Cyngor i gefnogi'r diwydiant sirol, cynhaliodd Wasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer Gwynedd weithdy busnes ym mwyty Dylan's yng Nghriccieth.

Roedd y digwyddiad yn gyfle gwych i fusnesau yn y maes twristiaeth i rwydweithio ac i'r Cyngor rannu gwybodaeth am yr amrywiol gynlluniau sy'n cael eu datblygu a'u hyrwyddo - yn cynnwys 18 o deithiau cylchol sydd wedi eu datblygu gan Gyngor Gwynedd ar hyd Lwybr Arfordir Cymru trwy arian Cronfa Cymunedau Arfordirol y Loteri Fawr a llwybrau beicio Ffordd Brailsford sydd wedi eu rhan-ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Dywedodd y Cyngorydd Mandy-Williams Davies, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd ar gyfer yr Economi:

"Mae Gwynedd yn gartref i rai o gyfleusterau antur awyr-agored gorau'r byd, ac mae ein mynyddoedd anhygoel, arfordiroedd, llynoedd a llwybrau yn golygu ein bod wedi croesawu miloedd o ymwelwyr y llynedd.

"Wrth gyd-weithio gyda'n partneriaid, mae Gwynedd wedi datblygu i fod yn lleoliad rhyngwladol o bwys ar gyfer twristiaeth antur gydag anturiaethwyr o bell ac agos yn mwynhau atyniadau hynod boblogaidd fel Zipworld a Bounce Below, llwybrau beicio mynydd a Llwybr Arfordir Cymru.

"Mae Croeso Cymru wedi dynodi eleni fel Blwyddyn Antur, rydym yn gweithio'n galed i sicrhau fod Gwynedd yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i roi hwb i gyflogaeth y sector pwysig hwn yn ogystal ag annog mwy o bobl i ddod yma a mwynhau ein hatyniadau."

Mae mwy o wybodaeth i'w weld ar wefan Eryri Mynyddoedd a Môr www.visitsnowdonia.info ac mae rhagor o wybodaeth yn cael ei hyrwyddo trwy hashnodau #GwladGwlad ar y cyfryngau cymdeithasol.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

ECO'r
Wyddfa

**Cefnogwch
ein
hysbysebwy**

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

**London House
LLANRUG**

**PEN
CIGYDDION
Y FRO**

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
**MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!**

(01286) 673574

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

GEIR CYMRU

Diolch am Gefnogaeth ein
Cwsmeriaid yn Eryri
dros **25** Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

Ysgol Waunfawr



Tim Athletau

Llongyfarchiadau i'r tim athletau a ddaeth yn bedwerydd yn y gystadleuaeth "Sportshall" yn y Ganolfan Hamdden yn ddiweddar. Da iawn Sophie Roughley, Chloe Owen, Sam Woodward, Iago Pritchard, Now Jones, Ellie Gossett, Robin Williams, Mari Williams ac Aled Wyn.

Eisteddfod yr Urdd

Hoffem longyfarch y plant a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn ddiweddar. Da iawn chi y Parti Llefaru a'r Band Pres am ddod yn 2il.

Diolch i'r mamau a fu'n brysur yn hyfforddi'r plant sef Mererid / Jana /

Rhian / Sian / Catrin a Delyth.

Wythnos Cymru Cŵl

Cafwyd wythnos wych yn dathlu 'Cymru Cŵl' ddechrau fis Mawrth. Cafwyd amrywiol weithgareddau ac yn ôl ymatebion y plant roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn yr hyn a drefnwyd ar eu cyfer.

Diolch arbennig i Huw Llyr a'i wraig, Mari Gwilym, Malcom Allen, Gareth Roberts o Fenter Fachwen, Bethane Williams am eu cyfraniadau.

Diolch hefyd i'r rheini hynny a ymunodd gyda ni yn ein Gorymdaith ddydd Gwyl Dewi Sant o gwmpas y pentref. Lluniodd ddisgyblion blwyddyn 6 bamffledyn gwybodaeth ar gyfer y rheini yn nodi'r gweithgareddau'r wythnos

Cyngerdd Dewi Sant

Cawsom groeso gwresog gan aelodau Sefydliad y Merched yn Eglwys Croes-y-Waun a mawr oedd eu diolchiadau o'r cyngerdd Dewi Sant gan aelodau'r Urdd. Hoffem ddiolch iddynt am y lluniaeth a'u cyfraniad ariannol i'r ysgol.



Pentref Peryglon

Bu blwyddyn 3 a 4 ar ymweliad ym Mhentref Peryglon ger Talacre yn ddiweddar, a chawsant gyfle i ddysgu am reolau diogelwch personol. Roedd pawb wedi mwynhau y diwrnod.

Gwersi Kerbcraft

Mae gwersi Kerbcraft i fl 1 wedi cychwyn am gyfnod o chwech wythnos. Diolch i Nia mam Cai a Mair mam Dion am gynorthwyo gyda'r gwersi yn ogystal â Swyddogion y Ffordd - Mia, Jade, Mabon ac Iwan Ynyr o flwyddyn 6.

Ymweliadau Techniquet

Cafodd Bl Derbyn, 1 a 2 weithdy Gwyddoniaeth ym Mhlas Menai yn ddiweddar ac roedd pawb wedi rhyfeddu ym mhabell y sêr.

Cafodd Bl 3, 4 a 5 weithdy am Ddefnyddiau a gwneud gwaith maes ar y traeth.

Cymdeithas Rieni ac Athrawon

Diolch i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon am drefnu Noson Bingo yn y Ganolfan ddiwedd y tymor. Diolch i bawb rhieni a thrigolion y pentref a gefnogodd y noson.

Ymweliad Mr Andrew Settatre

Unwaith eto hoffem ddiolch yn fawr i Mr Settatre am ddod i rannu cysyniad a symboliaeth wyau Pasg gyda ni.

Dymunwn ninnau Basg Hapus i bawb.





Amser cyffrous i'r Antur

Mwynhaodd menter gymdeithasol leol ddathliad dwbl ar Ddydd Gŵyl Dewi, pan agorwyd y drysau i'w cyfleuster newydd ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu a chorfforol.

Gwahoddodd Antur Waunfawr westeion a rhieni unigolion sydd yn derbyn gwasanaeth i gymryd golwg ar Gapel Bethel, Waunfawr a chartref newydd i unigolion ag anghenion mwy cymhleth.

Agorwyd Capel Bethel yn swyddogol gan Rhian Huws Williams, Prif Weithredwr Cyngor Gofal Cymru, a chafodd gwesteion fwynhau sesiwn cerdd a stori synhwyrdd, a baratowyd ac a berfformiwyd gan unigolion sy'n derbyn gwasanaeth gan Antur, gyda chefnogaeth staff. Daeth y dathliad i ben gyda thê prynhawn bendigedig a baratowyd gan dîm caffi'r Antur, sef Caffi Blas y Waun.

Mae symudi'r adeilad newydd wedi digwydd gyda chymorth grant gan Cyfenter, a chefnogaeth Menter Môn, a dyma'r cam cyntaf mewn prosiect newydd uchelgeisiol i'r fenter gymdeithasol, fel yr eglurodd Prif Weithredwr Menna Jones:

"Rydym wrth ein bodd gyda'n cyfleuster newydd, ac rydym yn ddiolchgar i Cyfenter a Menter Môn am eu cefnogaeth wrth wneud y weledigaeth hon yn realiti. Mae hwn yn gam cyntaf i'r Antur ar daith gyffrous iawn, a fydd hefyd yn gweld y gwaith o ddatblygu mwy o dai â chymorth a byngalo gwyliau, gan gynnig gofal seibiant i deuluoedd a gofawyr. Mae'r Antur wedi ymrwymo i ddarparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i unigolion ag anableddau

dysgu a chorfforol, ac i ddarparu gofal diogel a chyfarwydd o fewn y gymuned."

Ychwanegodd Rhian Huws Williams: "Roedd yn bleser cael bod yn agoriad Capel Bethel. Digwyddiad llawen iawn. Pennod newydd yn stori Antur Waunfawr. Cofiais am egwyddorion y sylfaenydd Gwyn Davies yn 1984. Meddai;

"Dros y blynyddoedd sylweddolais pa mor bwysig yw gofalu fod pob aelod o gymdeithas yn cael ei ystyried fel unigolyn ac nid fel aelod o garfan arbennig o gymdeithas. Byrdwn fy mhregeth yw mai trwy roi gwasanaeth i'w gymuned y mae person yn ennill ei blwyf fel dinesydd.

Mae sicrhau hawliau yn bwysig ond mae ysgwyddo cyfrifoldeb yn fil-gwaith pwysicach. Mae'n ddyletswydd foesol arnom i'w wneud yn bosibl i'n cyd-ddinasyddion, waeth faint yw eu gallu, i ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwnnw."

Sylwi wedyn mai dyna i bob pwrpas ydy egwyddorion craidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Y pwyslais ar gymuned, ar gydweithredu a mentergarwch. Gwasanaethau sydd yn canolbwyntio ar gryfderau pobl er mwyn eu galluogi i gyflawni ac i gyfranogi a chyfrannu er mwyn y canlyniadau a'r profiadau gorau posibl i bobl efo anableddau dysgu."

Lluniau (gan Iolo Penri):



—Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn—

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS

M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW

(01286) 870225

Parhad WAUNFAWR



Clwb 300 Enillwyr mis Chwefror oedd: £30: Mr Bryn Griffiths, Gorffwysfa; £20: Miss Sian Thomas, T?r Ysgoldy; £10: Mrs Nan Roberts, Pant Afon.

Sefydliad y Merched I ddathlu Gŵyl Ddewi yn y Sefydliad eleni croesawodd y Llywydd, Mrs Gwenan Williams, Prifathrawes yr ysgol Gynradd, Mrs Gwenda Griffith, un o'r athrawon ac ugain o blant i'n diddanu trwy ganu rhai o'r caneuon yr oeddynt wedi cystadlu ynddynt yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Hefyd cafwyd eitemau gan rai o aelodau'r band yr ysgol. Mae'n anodd credu fod plant mor ifanc yn gallu chwarae'r offerynnau yma mor ardderchog. Roedd yr aelodau i gyd wedi gwerthfawrogi perfformiad gwych y plant. Mwynhaodd y plant gacennau, bisgedi a diod ar y diwedd. Diolchodd y Llywydd iddynt ac i'r athrawon am eu gwaith clodwiw yn dysgu'r plant. Rydym yn lwcus iawn yn y pentref fod gennym ysgol mor ragorol.

I ddiweddu'r cyfarfod mwynhaodd yr aelodau de prynhawn hyfryd wedi ei baratoi gan rai o'r aelodau. Yn y cyfarfod nesaf ar Ebrill 7fed, Mr Christopher Williams o Feddgelert fydd y gŵr gwadd i roi sgwrs i ni ar ei brofiad o ddysgu yn Saudi.

Merched y Wawr Crwydro, bwyta ac yfed fu hanes y gangen yn ddiweddar. Dathlwyd y Nadolig yng Nghlwb Golff Caernarfon ac roedd y bwyd yn hynod flasus a'r gwmniaeth yn ddifyr dros ben, heb sôn am y daith hwyliog adref ar y bws – druan o'r dreifar!

Ymwelwyd â Pontio ddiwedd Ionawr yng nghwmni Elen ap Robert, y Cyfarwyddwr Artistig, a Gwen Siôn, y Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu'r Celfyddydau. Noson arall hynod ddiddorol yn rhoi i ni agoriad llygaidd ar y modd y bydd y byd celfyddydol yn datblygu.

Derbyn gwahoddiad gan gangen Bethel i flasgu gwin dan gyfarwyddyd y Parchedig Marcus Wyn Robinson wnaethom ym mis Chwefror. 'Hysbys y dengys y dyn o ba radd y bo'i wreiddyn', meddai'r hen ddihareb, gyda rhai yn dangos eu sgiliau blasu, tra bo

ambell un arall yn tueddu at lowcio! Noson lwyddiannus a thaith hwyliog arall adref ar y bws.

Dathlu Gŵyl Ddewi fu wedyn a hynny, yn ôl ein harfer, yng Nghaffi Blas y Waun, gyda elw'r noson yn mynd tuag at yr Ysgol Feithrin. Mwynhawyd y sgwrsio a blasu'r cawl cennin, y bara brith a'r cacennau cri a baratowyd gan y pwyllgor, ac roedd y trimins traddodiadol o napcynnau gwladgarol a'r cennin Pedr yn ychwanegu at naws y noson.

Aros yn ein cynefin fydd hi am y misoedd nesaf. Bydd Ann Catrin Evans, y cerflunydd, yn cadw cwmni i ni ar Fawrth 24ain ac ar Ebrill 28ain bydd cwis dan ofal Bethan (dim rhy anodd plis, Bethan!). Yna, ar Fai 26ain cawn sgwrs gan Rob Jones ar Gymry Lerpwl. Bydd y tri chyfarfod am 7.30 fel arfer yn Y Ganolfan.

Crwydro eto fydd ein hanes ar Fehefin 23ain a hynny i Blas Tan y Bwlch i fwynhau ein swper diwedd tymor, a sgwrs gan Siân Griffiths ar Yr Ysgwrn.

Baban Bach Newydd Llongyfarchiadau i Shannon a Luke, Stad Dôl Erddi, ar enedigaeth eu merch fach, Abigail. Wyres fach i Lorreta Jones a gor-wyres i Anne a David, Stad Tref Eilian.

Pen-blwydd Arbennig Yn ystod mis Mawrth bu Rhea Griffiths, Stad Bryn Golau, yn dathlu cyrraedd ei deunaw oed. Llongyfarchiadau mawr iti a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Adref o'r Ysbyty Rydym yn falch fod Angela Parry, Stad Bryn Golau a Simon Kay, Stad Llŷs y Waun, wedi cael dod adref ar ôl treulio amser yn yr ysbyty. Dymunwn wellhad llwyr a buan i chi.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu llawer yn y pentref, yn oedolion a phlant, yn sâl. Gobeithio fod pob un ohonoch yn gwell.

Anfonwn ein cofion cynnes at y rhai o'r pentref sydd yn cael gofal a chymorth yn eu cartref ac mewn cartref preswyl.

Dymunwn wellhad buan hefyd i Aled Taylor, Baladeulyn, wedi iddo gael llawdriniaeth yn yr ysbyty

Diolch Dymuna Gwenda, Eurwyn a'r hogia, Trefeddyg, ddiolch yn ddiffuant am bob

arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth ddiweddar.

Diolch Hoffwn ddiolch i fy ffrindiau a'm teulu am y dymuniadau da a'r ymweliadau tra yr oeddwn yn yr ysbyty yn ddiweddar. Cefais ofal arbennig gan staff Ward Padarn, Ysbyty Eryri. Diolch o galon i bawb. Nance Hughes, Wernas, Stad Croesywaun.

Diolch Dymunwn ddiolch i'r rhai o'r Cyngor Cymuned fu'n plannu bylbiau cennin Pedr ar ymyl y ffordd i mewn i'r pentref. Maent wedi blodeuo yn ystod y tywydd braf rydym yn gael ar hyn o bryd ac yn rhoi croeso i'r pentref.

Dymuno yn Dda Do, daeth tymor yr arholiadau pwysig mewn ysgol a choleg. Dymunwn yn dda i bob un sy'n sefyll yr arholiadau. Gwnewch eich gorau.

Gwaith Celf Bu Nesta Eluned, Tremnant, yn llwyddiannus yn

cal dau o'i gwaith paentiadau olew yn arddangosfa agored y Cambrian yng Nghonwy ddechrau'r flwyddyn. Yn dilyn hyn bu iddi wneud cyfweiliad ar raglen 'Stiwidio' ar Radio Cymru gyda Nia Roberts, lle bu'n trafod ei hysbrydoliaeth a'i diddordeb mewn arlunio.

Dyma'r ail waith iddi arddangos gwaith yn y Cambrian ac mae ganddi luniau hefyd yn Galeri 45 sydd ar y stryd fawr ym Mangor. Dymunwn bob lwc iddi yn ei gwaith celf.

Ar y Teledu Gwelwyd Angharad, Stad Tŷ Hen, un o genod y pentref, wrth ei gwaith yn nyrsio ar ward y plant yn Ysbyty Gwynedd ar y rhaglen 'Ward y Plant' ar sianel S4C.

Profedigaeth Yn dawel yn yr ysbyty bu farw Mr Gwynedd Williams, Stad Bro Waun. Cydymdeimlwn yn ddwys â Nansi, ei briod, ac â'i dair merch, Llywela, Delyth a Rhian a'u teuluoedd yn eu profedigaeth drist.

Gwasanaethau Eglwys y Waun am fis Ebrill

3: Parch Cath Williams

10: Cyfarfod Gweddi

17: Parch Olwen Williams

24: Cyfarfod Gweddi

Bydd aelodau'r Ysgol Sul yn cyfarfod yn y Capel am 10 o'r gloch y bore hefyd. Croeso i blant y pentref.

Dymuna CLWB AR ÔL YSGOL WAUNFAWR benodi

Gweithiwr/Gweithwraig Chwarae i arwain y Clwb ar 2 brynhawn yr wythnos am hyd at 6 awr.

Oriau agor y clwb ydy 3pm tan 6pm yn ystod tymor yr ysgol. Disgwylir i ddeilydd y swydd gael cymhwyster gofal plant Lefel 3.

Ystyrir ceisiadau gan bobl sy'n gweithio tuag at Lefel 3.

Mae'r cyflog i'w drafod.

Gellir cynnig oriau ychwanegol pan fydd niferoedd y plant yn y Clwb yn cynyddu.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Rhian ar 01286 650466 neu ebostiwrch clwbarolysgolwaunfawr@gmail.com neu ar facebook clwbarolysgolwaunfawr

Dyddiad cau derbyn ffurflenni cais: Ebrill 11eg 2016

HYSBYSEB SWYDD ORIAU ACHLYSUROL

Mae CLWB AR ÔL YSGOL WAUNFAWR yn chwilio am Weithwyr Chwarae wrth gefn

i weithio yn y Clwb pan fydd Staff parhaol yn absennol.

Rhaid i ymgeiswyr gael cymhwyster Gofal Plant Lefel 2 neu uwch.

Mae'r cyflog i'w drafod

Gellir cynnig oriau ychwanegol pan fydd niferoedd y plant yn y Clwb yn cynyddu.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Rhian ar 01286 650466 neu ebostiwrch clwbarolysgolwaunfawr@gmail.com neu ar facebook clwbarolysgolwaunfawr

Dyddiad cau derbyn ffurflenni cais: Ebrill 11eg 2016


Arddangosfa o ddarluniau bro'r chwarel



Mae Gwilym Williams o Glwt y Bont wedi sefydlu Crefft Elidiers 1976, a'i siop a'i weithdy yn y Gilfach ddu, Llanberis yn boblogaidd gydag ymwelwyr o bob cwr o'r byd, yn ogystal a'r trigolion lleol. Ei gariad at arlunio fu'n gyfrwng iddo droi'r cyfrwng amser hamdden yn waith, a hynny drwy beintio ar lechi. Er na chafodd hyfforddiant mewn arlunio, mae ei ddawn naturiol wedi bod yn gyfrwng bywoliaeth iddo.

Eleni, dros gyfnod y Pasg, bydd darluniau o'i waith yn cael eu harddangos yn oriel Mynydd Gwefru, Llanberis, ac mae'n werth troi i mewn i gael golwg arnynt. Thema'r arddangosfa yw 'Bywyd y Chwarelwr', a phob llun yn dangos rhan o fywyd y chwarelwr yn yr ardal hon, ond yr un mor berthnasol i ardaloedd chwareli llechi eraill gogledd Cymru.

Mae'r arddangosfa wedi ei rhannu'n fras i dair rhan: cartref y chwarelwr a'i grefydd, gan gynnwys lluniau o fythynnod fel Bryn Sardis a Hen Lôn a chapeli ac eglwysi ardal Deiniolen; gwaith y chwarelwr ar y graig, yn hollti ac yn naddu; a chyfres o luniau o'r gwahanol injans stêm oedd yn gweithio ar y ponciau.



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr

Un funud fach ...

GEIRIAU'R FFŴL

Bydd llawer ohonoch yn darllen y rhifyn hwn o'r Eco ddiwrnod Ffŵl Ebrill gan mai dydd olaf Mawrth yw'r dyddiad cyhoeddi y tro hwn. Wn i ddim a fydd rhywun wedi gwneud ffŵl ohonoch, neu a fyddwch chi wedi llwyddo i dwyllo rhywun arall ai peidio. Os rhywbeth, mae'n mynd yn fwyfwy anodd dal pobl erbyn hyn. Neu ai fi sy'n mynd yn hen ac yn ddiddychmyg? Mae ambell i dwyll Ffŵl Ebrill llwyddiannus wedi bod yn hwyl fawr, fel y tro hwnnw y bu amryw o wrandawyr Stondin Sulwyn yn ymateb yn ffyrnig i'r awgrym y byddai'r Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal yn yr Unol Daleithiau. Nid cymaint o hwyl, o bosibl, i'r rhai sy'n cael eu twyllo gan nad oes fawr neb yn or-hoff o gael ei wneud yn ffŵl. Ond gan mai hwyl ddiniwed yw twyll Ffŵl Ebrill, does neb yn debygol o boeni'n ormodol am gael ei rwydo.

Un peth yw cael fy ngalw'n 'Ffŵl Ebrill'; peth arall yn hollol fyddai cael fy ngalw'n ffŵl go iawn. Mae'n ddigon posibl fod yna bobl sy'n credu mai dyna ydw i, ond mi fyddwn yn cymryd ataf yn o arw pe byddwn yn dod i wybod am y peth! Oherwydd nid peth bach yw galw rhywun yn ffŵl; mae'n beth difrifol iawn. Mae Iesu Grist yn y Bregeth ar y Mynydd yn rhybuddio pobl rhag defnyddio'r fath iaith; 'A phwy bynnag sy'n dweud wrtho, "Y ffŵl", bydd yn ateb am hynny yn nhân uffern' (Mathew 5:22). Dylai'r geiriau hynny wneud i ni ochel rhag galw neb yn ffŵl.

Ac eto, mae'r Beibl yn barod iawn i sôn am ddau fath o ffŵl. Mae Paul yn dweud fod Cristnogion yn 'ffyliaid er mwyn Crist' (1 Corinthiaid 4:10) gan fod eu ffydd yng Nghrist yn beth ofer a gwag yng ngolwg anghredinwyr. Ond yna, anghredinwyr o'r fath sy'n cael eu galw'n ffyliaid ar ddechrau Salm 14; 'Dywed yr ynyd yn ei galon, "Nid oes Duw."' Dyna ddyfarniad y Beibl; dyna ddyfarniad Duw ei hun. Gall y Cristion gydymdeimlo ag anghredinwyr. Trwy ras, wedi'r cyfan, y mae unrhyw un ohonom yn credu yn Nuw; trwy ras yr ydym yn derbyn yr hyn a ddywed Duw amdano ei hun yn Y Beibl; trwy ras yr ydym yn ymddiried yn Iesu Grist. Gallwn o bosibl gofio adeg pan nad oeddem ninnau yn credu. Gallwn hefyd gydymdeimlo ag anawsterau gonest pobl i gredu yn naioni a chariad Duw yn wyneb pob math o anawsterau a helbulon. Gwnawn ein gorau i egluro ein ffydd ac i helpu pobl i gredu trwy gyfeirio at yr hyn a ddywed y greadigaeth a'r gydwybod ddynol a'r Beibl a'r Iesu am Dduw. Gweddiwn dros bobl, iddynt allu credu. Ond wedi dweud a gwneud pob peth, ni allwn wadu geiriau'r Salmydd, mai ffŵl sy'n dweud, 'Nid oes Duw'.

JOHN PRITCHARD

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

Trin
Gwallt
Lynette
01286 669140
07771783516
Gwallt yn y Cartref

POSH PAWS
TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8yb-4yp
Gwasanaeth Casglu a Danfon
Tyn Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION CHWEFROR 2016
Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, ar nos Fawrth yr 16eg o Chwefror am 7.30 yr hwyr.

PRESENNOL ac

YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Emlyn Baylis (Cadeirydd), Bethan Holding, Derek Jones, Helen Sharp, Ward Peris: Iola Owen, Gwenda Roberts, Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Gwilym Evans, Barry Davies, Eurig Druce, Iwan Harding.

DATGAN BUDDIANT;

Neb

CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fawrth y 19eg o Ionawr, 2016 fel rhai cywir.

MATERION YN CODI O'R COFNODION:

1. Llwybr Cefn Stryd Newton:

Y broblem heb ei datrys.

2. Cysgodfan Bws:

Cafwyd adroddiad gan y Clerc fod Cyngor Gwynedd (CG) yn fodlon i'r gysgodfan gael ei lleoli ger Eglwys Sant John Jones (yr hen gapel Wesle) i lawr yr ochr isaf i'r fainc tuag at y pentref. Cafwyd pris gan Macemain Amstad am gysgodfan Chiltern 2 Bay, fel yr un a osodwyd y llynedd, o £3,154 a cludiant o £260 ynghyd â TAW, cyfanswm £4,096.80. Yr un pris a'r llynedd.

Bydd angen cysylltu â thrigolion

lleol i'w hysbysu o fwriad y Cyngor, roedd y Clerc eisoes wedi cael gair â'r Tad Gordon, yr offeiriad Pabyddol sydd â gofal am yr eglwys. Mae angen cysylltu â 2 neu 3 o gartrefi eraill. Penderfynwyd bwrw 'mlaen i brynu a gosod y gysgodfan o gofio'r awydd a'r angen yn lleol a'r ddeiseb a gafwyd yn gynharach yn gofyn amdani.

3. Twll yn y Wal:

Heb glywed dim pellach, ond yr arwyddion yn dal yn uniaith Saesneg.

4. Llainwen Uchaf:

Mae'r brigau yn dal i gysgodi'r lamp.

5. Llifogydd:

Adroddwyd bod y twll yn y ffordd a agorwyd i glirio'r gwter ger Nant Ffynnon, Nantperis yn dal heb ei gau a'r broblem heb ei datrys. Agorwyd y twll cyn y Nadolig. Hefyd pwysleisiwyd pa mor ddifrifol ydi'r dŵr sy'n casglu ar law trwm ger y fynedfa i Gardda Bach.

Ym mhentref Llanberis adroddwyd fod cwterydd wedi eu glanhau yn ddiweddar a bod glanhau wedi bod hefyd ar ochr y ffordd i lawr tuag Tro Ben Twnal, tua Caernarfon.

5 MATERION ERAILL:

1. Glyn Peris, Nantperis:

Holwyd tybed a ellid darganfod a ydi o flaen yr hen Bost yn arhosfan ac os oes hawl cynllunio wedi ei gael i ostwng lefel y palmant i ganiatau mynedfa i dalcen gorllewinol y tŷ.

2. Cysgodfan Bws Nantperis:

Awgrymwyd y dylid ail baentio tu

mewn y gysgodfan a nodwyd fod seidd wedi torri.

3. Lampau:

Awgrymwyd diffodd 2 yn Nantperis (ger yr Hafod a Penbryn) ond i beidio a'u tynnu oddi yno. Holwyd hefyd am y posibilrwydd o gael lamp mewn llecyn yn Llanberis. Nodwyd os nad oedd trydan yno'n barod y byddai'r gost mae'n debyg yn afresymol o uchel. Roedd y Clerc yn sicr na fyddai CG yn talu am lamp.

GOHEBIAETH:

1. CG - Cefnogaeth Gorfforaethol:

Gwahoddiad i anfon cynrychiolydd i gyfarfod arbennig gan Gyngor Gwynedd i ystyried yr her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Bydd y cyfarfod i'r ardal yma yng Nghaernarfon ar y 25ain o Chwefror. Emlyn Baylis i gynrychioli'r Cyngor.

2. CG - Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig:

Ebost er gwybodaeth yn nodi fod ymgyrch 'Caru ein Llyn' yn sôn am greu Llwybr Celf yn ystod wythnos yr 28ain o Fai i'r Sed o Fehefin. Enw'r rhaglen fydd Trem ar Lyn Padarn/Padarn Reflections. Trefnir gan Emma Edwards-Jones ar ran Eryri Bywiol/Snowdonia Active.

3. Ombwdsmon Cymru:

Llythyr yn nodi fod swyddfa'r Ombwdsmon wedi cyhoeddi llyfryn Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda a Rheoli Cofnodion yn Dda.

4. CG - Llwybrau:

Cais am anfoneb am waith llwybrau. 5. CG Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd:

Nodyn yn cadarnhau y bwriad i gau Lôn yr Eglwys, Llanberis, i gerbydau am gyfnod er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw. Mae'r gorchymyn mewn grym o'r 1af o Chwefror am gyfnod o dri mis.

CYNLLUNIO:

1. Cyngor Gwynedd:

• C16/0085/15/LL - Codi estyniad deulawr ochr i dŷ presennol - 19 Llainwen Isaf, Llanberis - dim gwrthwynebiad.

2. APCE:

Caniatáu:

• NP3/15/221 - Clirio'r peiriannau prosesu presennol ynghyd â'r cyfarpar, gosod contractwr biolegol sy'n cylchdroi a chiosgau cysylltiedig, a chreu llawr caled o fewn yr ardal weithredol bresennol - Gwaith Trin Dŵr Gwastraff, Nantperis.

LLWYBRAU A'R FYNWENT ag ati:

a) Y Fynwent:

Adroddwyd bod carreg goffa yn gogwyddo. Mynegwyd pryder bod y Fynwent yn llenwi a dylid ystyried yn fuan beth i'w wneud. Adroddwyd bod y fainc newydd a'r hysbysfwrdd angen eu trin er mwyn diogelu'r coedyn. Nodwyd bod y pyst i atal parcio wedi eu harchebu.

b) Llwybrau:

Cafwyd adroddiad nad oedd llwybr cyhoeddus ger cefn Stryd Olgra. Nodwyd fod un neu ddau o lwybrau angen sylw. Ger y Rhaeadr a hefyd ger Mur Mawr.

Cafwyd caniatâd i osod mapiau llwybrau ar un o waliau'r Ganolfan.

ADRODDIADAU

O GYFARFODYDD ALLANOL:

Adroddwyd fod Emlyn Baylis wedi cyfarfod un o heddwision Heddlu'r Gogledd oedd yn gyfrifol am gefn gwlad a nodwyd nad drwg o beth fyddai ei wahodd i'r cyfarfod nesaf. Adroddwyd fod y ganolfan ymwelwyr yn cael ei rhedeg o Mynydd Gwefru.

Ffenestri CADNANT Windows
iorwerthwilliams@fsmail.net
DRYSAU □ FFENESTRI
A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM
13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

Gwesty Dolbadarn
Llanberis
Ffôn-(01286)-870277

Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

BOSCH Service
Car Service
www.a-v-w.co.uk
01286 673559
CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU
AVW **BOSCH Car Service**


ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau

Cyngor Cymuned Llanrug
a Chwm y Glo

Blwch Post ger Ystorfa, Llanrug
Adroddwyd fod y Swyddfa Bost wedi cytuno i ail leoli'r blwch ond hyd yma nid yw'r gwaith wedi cychwyn.
Llwybr Ffordd Llanberis i Ffordd Glanffynon
Yn dilyn trafodaeth gyda Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd cytunwyd fod y llwybr mewn cyflwr drwg a bod Cyngor Gwynedd am wneud rhan o'r gwaith ar y llwybr.
Penderfynwyd hefyd i gyflogi person i wneud gwaith angenrheidiol o dwtio a thaclo yn gyffredinol o gwmpas y gymuned yn cynnwys gwaith ar y llwybr ac yn y fynwent.
Sedd Wag ar y Cyngor
Adroddwyd fod un person o Gwm y Glo wedi cytuno i roi ei enw ymlaen i eistedd ar y Cyngor.
Penderfynwyd derbyn y cais ond nodwyd fod yn angenrheidiol iddo wneud cais ysgrifenedig yn gyntaf.
Materion Cynllunio
Cais am hawl i godi tŷ newydd deulawr yn lle'r modurdy presennol a chreu mynedfa gerbydol newydd ar y tir ger Eillionwy, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.
Oherwydd y pryder a fynegwyd gan yr aelodau am y prinder lle parcio a byddai hyn yn cael effaith ar y rhwydwaith ffyrdd lleol, penderfynwyd gwrthwynebu'r cais.
Cais i ddiddymu amod 6, 7 & 8 o ganiatâd cynllunio er mwyn caniatáu trefniant amgen i waredu dŵr draenio tir. Rhyd y Delyn, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug,
Trafodwyd hyn ac roedd yr aelodau o'r farn nad oeddynt yn gymwys i wneud penderfyniad oherwydd nid oeddynt yn ymwybodol o beth yw ystyr nifer o'r amodau.
Dŵr glaw yn casglu ger y mynediad i Ganllwyd
Adroddwyd fod cŵyn wedi'i dderbyn gan berchennog yr eiddo am fod ymwelwyr i'w dy yn methu cerdded drwy'r dŵr heb wlychu eu traed.
Adroddwyd ymhellach fod lluniau wedi darparu i ddangos y sefyllfa.
Penderfynwyd: Wedi cryn drafodaeth ar beth all y Cyngor Cymuned ei wneud i ddatrys y broblem, penderfynwyd cyfeirio'r mater at Gyngor Gwynedd a holi am ei arbenigedd hwy.
Parc Sglefrio Cwmyglo
Adroddwyd fod cŵyn am gyflwr y Parc Sglefrio wedi'i dderbyn.
Penderfynwyd i geisio asesu'r risg o'r parc sglefrio ac os bydd diffygion yn cael eu darganfod, yna cael dyfynbris am wneud y gwaith. Esboniwyd fod oblygiadau yswiriant arnom i gario allan yr asesiadau risg.
Graffiti ar offer chwarae cae Nant y Glyn
Adroddwyd fod cwynion wedi'i derbyn am graffiti anwedus ar offer chwarae yng nghae Nant y Glyn. Adroddwyd fod y mater wedi'i gyfeirio at yr heddlu a'u bod hwy wedi ei gyfeirio tuag at Gyngor Gwynedd. Fodd bynnag, llwyddwyd i dynnu'r graffiti anwedus i ffwrdd.

Ieuencid ar y Cyngor Cymuned
Yn unol â'r adroddiad a ddarparwyd i'r aelodau cafwyd trafodaeth ar y mater.
Penderfynwyd cysylltu â Phrifathro Ysgol Brynrefail, Pennaeth Coleg Menai a Phrifysgol Bangor a gofyn iddynt hyrwyddo'r cynllun.
Cynrychiolaeth Un Llais Cymru 2016 / 2017
Penderfynwyd y byddai'r Cyngorwyr Meirwen Lloyd, Phillip Roberts a'r Clerc yn mynychu cyfarfodydd Un Llais Cymru ar gyfer y flwyddyn 2016 / 2017.
Amserlenni Bws
Ystyriwyd yr amserlenni bws yn fanwl gan yr aelodau. Mynegwyd pryder am amseroedd i ymweld ag Ysbyty Gwynedd. Hefyd yr ansicrwydd a oeddynt yn cyd fynd ac amseroedd trenau fydd yn galluogi myfyrwyr o'r ardal ddal bws i fynd nôl i'w colegau.
Penderfynwyd anfon y sylwadau yma i Gyngor Gwynedd.
Y Fynwent
Adroddwyd fod cŵyn wedi'i dderbyn am gyflwr y ffordd at y fynwent, ond erbyn hyn mae rhywfaint o'r gwaith i lenwi tyllau yn y ffordd wedi ei wneud. Mynegwyd pryder gan yr aelodau fod cyflwr y ffordd yn amharu ar urddas angladdau.
Adroddwyd fod angen gwneud amrywiaeth o waith taclo yn y fynwent, yn enwedig ar ôl y gaeaf gwlyb.
Adroddwyd fod prinder lle yn y fynwent a bod angen edrych i'r dyfodol a meddwl am bwrcasu tir ychwanegol a'i gysegru. Adroddwyd ymhellach y dylai Pwyllgor y Fynwent gyfarfod i drafod hyn ac anghenion ar gyfer y dyfodol.
Penderfynwyd:
1 Cysylltu â Chyngor Gwynedd i'w hysbysu o gyflwr y ffordd a gofyn iddynt a oedd bosib iddynt esmwytho'r ffordd.
2 Trefnu i weithiwr ymgymryd â'r gwaith o dactlo'r fynwent cyn Sul y Blodau.
3 Trefnu i gysylltu â Mr Andrew Williams i holi a fyddai'n fodlon gwerthu tir i'r Cyngor ac i holi am y drefn o gysegru tir.
Her Gwynedd
Penderfynwyd y byddai dau gynrychiolydd o'r Cyngor yn mynychu'r cyfarfodydd yng Nghaernarfon a Bangor ar y 25ain a'r 29ain o Chwefror.
Cais am arian - Clwb Pêl-droed Llanrug Unedig
Penderfynwyd, yn unol â pholisi'r Cyngor i roi grant o £700 i glwb pêl-droed Llanrug Unedig.
Cais am arian - Urdd Gobaith Cymru
Derbyniwyd cais am arian gan Urdd Gobaith Cymru
Penderfynwyd: Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd beidio â chyfrannu tuag at yr Urdd, oherwydd bod y Cyngor yn y gorffennol yn cyfrannu tuag at gostau aelodau lleol i fynychu'r eisteddfod.



GWAITH
COFFAOL
LLANRUG

Ffôn Gwaith
(01286) 672898

Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrrhaeddwr Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Llanddeiniolen

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a Gynhaliwyd yn Ysgol Gymuned Penisarwaun

Nos Fawrth 1af Fawrth 2016

Yn bresennol: Y Cadeirydd Miss Phyllis Ellis a'r Cynghorwyr, Elfed Williams, Richard Ll. Jones, Jane Pierce, Carolyn Roberts, R. Hefin Williams, Rhian Evans a Gwilym Williams

Gweddi. Offrymwyd gair o weddi gan Richard Ll. Jones

1. Ymddiheuriadau. Aled Green, Geraint Elis, Idris Thomas a Geraint Hughes

2. Datgan buddiant. Dim

3. Cofnodion cyfarfod 2ail Chwefror 2016.

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

4. Materion o'r cofnodion

Tai Bryntirion Penisarwaun – Mae'n ymddangos fod oedi pellach ar y sgim yma. Mae yna ansicrwydd a yw NHBC yn fodlon rhoi tystysgrif ar waith y contractwyr ar y draeni. Er ceisio cysylltu i gael ymateb gan rywun yn CCG cyn y cyfarfod, nid oedd neb ar gael i ymateb. Y clerch i gysylltu a gyrru llythyr o'r cyngor cymuned eto!

Parcio Croesfan King Arthur - Mae ymweliad wedi bod â'r safle, a bydd yn cael ei gynnwys yn y cynllun arfaethedig cyfyngiadau parcio nesaf ar gyfer Arfon.

Cynllun Lliniaru Llifogydd – Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau bydd y gwaith yn dechrau ar y 7ed o Fawrth ac yn debygol o barhau am oddeutu 4 wythnos. Y contractwyr fydd G.H. James Cyf.

Gwaredu Anghyfreithlon – Mae'r cyngor wedi codi yr eitem oedd wedi ei waredu rhwng Penisarwaun a Bethel.

Baw Ci – Mae'r warden yn ymweld o bryd i'w gilydd â phentrefi pan fo cwynion. Yn dilyn ein cŵyn diweddar, bu i'r warden drefnu cyfarfod am y broblem gyda'r cynghorydd yn ysgol Penisarwaun ddiweddd Chwefror. Siomedig oedd presenoldeb pobl yn y cyfarfod, serch hynny cafwyd sgwrs ar beth i'w wneud i leihau y broblem, a danfonwyd taflenni o gwmpas tai.

5. Gohebiaeth a materion eraill

Llythyr Ysgol Brynrefail – Derbyniwyd llythyr gan Lowri Roberts, Osian Edwards, a Lisa Hughes, athrawes a 2 ddisgybl o'r ysgol yn gofyn am unrhyw gefnogaeth tuag at daith grŵp o fyfyrwyr hŷn i Batagonia yn nhymor yr Hydref. Cyfeiriwyd ein bod eisoes wedi cyfrannu yn ariannol tuag at gost 2 aelod y flwyddyn yma yn barod, ac ein bod yn falch iawn o gefnogi y bobl ifanc. Cyfeiriodd y cynghorydd Richard Ll. Jones ei fod ef ac ambell un arall o aelodau y cyngor yn cymryd rhan mewn nosweithiau sydd wedi eu trefnu i godi arian tuag at y daith.

Cais Theatr Bara Caws – Derbyniwyd cais am rodd ariannol gan y cwmni. Unwaith eto ysgrifennu yn ôl yn egluro mai unwaith y flwyddyn, sef Hydref, yr ydym yn rhoi ystyriaeth i geisiadau am nawdd a hynny wedi derbyn llythyr a Mantolen Ariannol gyfredol.

6. Cynllunio

Glan Ffrwd, Brynrefail – Estyniad deulawr i estyniad presennol.

Bryn Hyfryd, Bethel – Codi estyniad deulawr ochor ac estyniad un llawr cefn.

Perthi, Rhos Bethel - Estyniad un llawr i ochor blaen y tŷ presennol

7. Gwefan

Rhoddodd y clerch adroddiad byr ar beth sydd wedi ei ddiweddarau ar y wefan, ac be sydd angen ei wneud eto. Gosodwyd cynllun gwaith i aelodau ar hyn yn ystod y mis.

8. O gwmpas y Bwrdd

Bethel – Angen cysylltu â Gwynedd i dynnu man maes parcio anabl ar y lôn sydd yn cydreddeg gyda'r hen eglwys heibio y post gan nad oes dim defnydd ohono bellach.

Parc Padarn – Cafwyd rhyw fraslun o syniad ar ffordd i ddatblygu ymhellach cyswllt â Parc Padarn ac ardal yr hen Chwarel/Allt ddu yn Ninorwig. Y weledigaeth oedd gweld rhyw fath o weiren neu geir cebl rhwng Allt Ddu, inclên a Parc Padarn. Hadu hâd gyda'r gobaith y bydd yn ffynnu. Buasai'r cynllun yn sicr yn denu mwy o bobol i'r ardal i weld yr hanes ac yn sicr yn adfywio pentrefi Deiniolen a Dinorwig.


Awgrymu gyrru copi a braslun o'r cefndir a syniad i Hywel Williams i edrych beth fydd yr ymateb.

Parc Padarn – O fis Chwefror hyd y Pasg does dim warden parcio yn gweithio yno am gyfnod ar y penwythnos. Felly mae parcio yn rhad ac am ddim!! Ydi hyn yn golled fawr i'r cyngor a ninnau gyda chymaint o doriadau yn ein wynebu? Hefyd, un toiled sydd yno ac mae yno blant wedi bod yn ymweld ac wedi eu cau i mewn ar benwythnos – a neb yn warden ar ddyletswydd i helpu. Mae sôn mai'r rheswm am hyn ydi nad ydynt yn cael tâl ond yn hytrach yn cael dyddiau llanw. Clerch i gysylltu â Barry Davies i ofyn beth yw'r sefyllfa, ac a oes modd gwella y rheolaeth ar benwythnos.

Brynrefail – Mae tyllau mawr yn y lôn ger Trem Eilian a Erw Nant. Clerch i gysylltu â Priffyrdd. Mae y gwaith adnewyddu y wal wedi dechrau ar bont injan.

Dinorwig – Y fainc ger yr hen bost angen ei pheintio. Clerch i gysylltu i gael pris peintio KM

Arwydd No Through Road yn Allt Ddu wedi dod o'r ddaear ac yn gorwedd ar lawr. Clerch i gysylltu â Gwynedd



E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia







✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
✓ Adran teithiau grŵp.
✓ Tocynnau rhodd.
✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvonias.co.uk



Ar ben arall i'r lein

Gyda'r drws wedi agor ar dymor arall, be sy'n ein wynebu 'dwch? Do dwi 'di cael ychydig oriau i lawr y Finiog. Wel, a dweud y gwir, dyma'r dechrau tymor gorau i mi ei gael ers tipyn o flynyddoedd. Cefais ychydig o frithyll ar y diwrnod cyntaf, sef 3dd Mawrth, mi oedd hynny yn plesio yn eithriadol. Mi es allan wedyn ymhen yr wythnos, a wel, choeliwch chi byth, daeth rhyw ddau arall i'r rhwyd. Cofiwch fel mae'r blynyddoedd yn hedfan heibio mae rhywbeth bach wedi ei ddysgu am 'sgota mor gynnar, a hynny yw disgwyl i'r rhan gynhesaf o'r diwrnod ddod heibio. Ar y dau ddiwrnod yr es allan mi oedd tua un y prynhawn ac yn eithaf oer. Ond yn sydyn am tua chwarter i ddau mi gododd y tymheredd rhyw dair gradd a dyna hi, rhyw ddeoriad o'r hen ffefryn y Llwyd Corff Main yn codi oddi ar y dŵr. A dyna hi rhyw ddeg munud bach o brysurdeb cyn i'r tymheredd oeri mewn amrantiad a'r afon unwaith eto yn dawel.

Dwi di cyfeirio at yr hen Lwyd Corff Main o'r blaen. Dyma un o'r cyfrinachau sydd wedi dod fel cyngor gan Clifford Thomas ond, wrth gwrs, mae mwy nag un ffordd i gael gwybodaeth am y plu mae o'n ddefnyddio. Sut medda chwi? Wel, mae yn gadael ei enwair yn y ddeorfa yn barod am rhyw dro bach bob dydd. Cael golwg ar be di'r plu pan mae'r enwair yn segur yw'r gyfrinach - ac yndi mae yn gweithio hefyd.

Mae'r hen bluen yma yn eithaf enwog drwy'r wlad - ond tu allan i'r ardal yma fe'i hadnabyddir fel Blue Dun. Mae Robert Thomas, Erw Pwll y Glo, Llanddeiniolen, yn cyfeirio ati yn ei ddyddiadur 1809-1823. Dyma be oedd ganddo i ddweud am 30 Mawrth 1813 - daliais 7 dwsin o frithyll yn y Saint ar gorff main a clust ysgyfarnog. Rhain oedd y plu oedd yn cael eu cymryd orau. Hacl o iâr a elwir Dick Lloyd yw'r oreu, mae hon yn mwy llwyddiannus na unrhyw bluen arall o iâr lwyd-las. 'Roedd nifer o hen 'sgotwrs allan y diwrnod yma - ond neb arall yn cael hwyl arni.

'Rwyf wedi holi o'r blaen am yr iâr Dick Lloyd, ond neb yn gwybod dim, felly dyma brocio rhyw ychydig mwy rhag fod gwybodaeth yn rhywle am y lliw 'ma - tybed?

Ar 8 a 9ed Mawrth cynhaliwyd yr Arolygaeth Gynllunio gyfarfod ym Mynydd Gwefru, Llanberis, i dderbyn sylwadau ynglŷn â'r cais i adeiladu'r gorsaf gynhyrchu trydan yng Nglyn Rhonwy. Fe gefais gyfle i roi drosodd bryderon y gymdeithas ynglŷn â'r effaith ychwanegol buasai gollwng dŵr o'r orsaf yn ei gael ar gynhyrfu'r

budreddi sydd wedi gwaelodi ar wely'r llyn. Dyma'r stwff sy'n achosi y diffyg ocsigen.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cofnodi diffyg ocsigen yn y llyn ar adegau fel a ganlyn - 1.7mg/l a hyn i gymharu fod pysgod fel eog, brithyll a'r torgoch eisiau fan leiaf 6mg/l i fod yn weddol hapus. O dan 2mg/l does dim gobaith iddynt.

Yn ogystal mae lefelau dan 11mg/l yn amharu'n sylweddol ar eu deori/magu ac o dan 6mg/l mae eu grawn yn marw cyn cael cyfle i ddeori. Does ddim eisiau dweud mwy nac oes - ond y tebygrwydd fydd i hyn oll gael ei ganiatau. Wrth gwrs, mae rhai yn cefnogi'r holl fenter, gan dychmygu efallai fod y llanastr amgylcheddol yn dderbyniol er mwyn cael tipyn o arian i gynorthwyo neuaddau rhai pentrefi ac ati fydd yn cael eu effeithio gan y cynllun.

Does dim rhagor o wybodaeth wedi dod ynglŷn ag achos Padarn o'r Llys Apêl.

1af Ebrill, nid yn unig fydd agor Dywarchen ond hefyd dyma'r diwrnod bydd rhaid cyfarfod â swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn dilyn eu penderfyniad i atal y cytundeb i liniaru effaith colli Llyn Peris, Afon Dudodyn a rhannau o afonydd Y Bala ar Perisfeli magwrfa bysgod. Mae eu meddylfryd diweddaraf yn ymwneud â gwella cynefinoedd, dyma yw'r ffordd ymlaen meddai'r arbenigwyr pysgodfeydd i lawr yng Nghaerdydd 'na. Mae un o'r rheolwyr yma wedi bod o amgylch y lle i weld ein trafferthion. Digon o ysgwyd pen a chydymdeimlo ar y diffeithwch pysgodfaol sydd o Lanberis i fyny'r Nant yn dilyn yr holl ddatblygu sy'n mynd ymlaen, ond tydi hyn ddim yn ddigon iddynt newid eu meddyliau.

Dwi cael rhyw gip ar beth sydd yn cael eu cynnig - ond yn anffodus does dim gobaith i weld Llyn Peris na'r afon Dudodyn na gwaelodion Afon Peris yn cael eu gwneud yn rhan unwaith eto o'i rhedfa naturiol. Ond cawn weld, efallai y bydd ganddynt rhyw gwningen fach i dynnu allan o'r het. Cewch wybod mis nesaf.

Gofynnwyd y mis diwethaf am wreiddyn yr enw Llyn Llam Dda neu Llyn Chaen ar y Gwyrfa. Oes mae llawer i droi wedi bod ar ystyr yr enw, ond pan ofynnais i'r diweddar Oscar Evans flynyddoedd yn ôl ar wreiddyn yr enw, ei ateb oedd, 'Am fod yr eogiaid eisiau rhoi coblyn o naid er mwyn mynd allan o'r pwll.' Mae hunan well ystyr i mi - be 'da chi'n feddwl. Cofiwch hefyd fod y Garreg Bechodau rhyw uwch yn yr Afon ger Llyn y Fuwch.

Huw Price Hughes.

Y bluen Llwyd Corff Main, os am ei chlymu fel hyn mai'n mynd:

Bachyn Kamasan B175 maint 12 neu 14.
Corff - Cwll o gynffon paun (y lyged) wedi tynnu'r blewiach
Hacl neu traed o bluen iâr Andalusian, un Lwyd/las, (lliw llechen) Hacl neu traed o bluen iâr Andalusian, un Lwyd/las, (lliw llechen) neu os oes rhywun yn gwybod am un o'r enw Dick Lloyd Adain - pluen o adain Drudwy.

LLANBERIS

W

28

Parhad LLANBERIS

YSGOL DOLBADARN, LLANBERIS



Chwaraeon:

Athletau: Llongyfarchiadau mawr i dim athletau dan do yr ysgol ar eu gwaith caled yn ddiweddar. Dyma lun ohonynt yn eu festiau newydd (rhodd caredig gan Rhieni a Chyfeillion yr ysgol).

Pêl-Rwyd Bu'r tim yn cystadlu mewn twrnament yng Nghanolfan Brailsford ym Mangor yn ddiweddar. Bu iddynt chwarae yn arbennig o dda ac mae eu sgiliau yn datblygu ym mhob gem. Bydd raid dal ati gyda'r ymarferion er mwyn llwyddo eto y flwyddyn nesaf!



Chwalfa'- cafodd disgyblion hynaf yr ysgol gyflwyniad 'Chwalfa' sef dehongliad o gyfnod y streic gan Leisa Mererid fel taith Theatr Genedlaethol Cymru- mwynhaodd pawb y cyflwyniad yn fawr iawn ac yr oedd yn trin y materion a drafodwyd yn sensitive iawn.

Diwrnod Y Llyfr

Cafodd y disgyblion ddiwrnod arbennig yn darllen a thrafod llyfrau o bob math. Daeth y plant i'r ysgol fel cymeriadau o lyfr a dod a'u hoff lyfr i'r ysgol.

Groundworks- Cafodd ddisgyblion Blwyddyn 5+6 gyflwyniad ar sut i ofalu am y Galon a sut i fyw yn iach. Bu iddynt hefyd ddysgu sut i achub bywyd mewn argyfwng- gwers hynod o bwysig. Dyma lun o ddisgybl yn dysgu sgiliau sylfaenol achub bywyd.(llun) Noddir y gweithdai gan gwmni Subway.

Rygbi

Daeth Rhun Williams sef aelod o garfan dan 20 Cymru i'r ysgol i roi sgwrs i'r disgyblion fel rhan o wythnos Cymru Cwyl. Diolch yn fawr iddo am ei amser a'i amynedd wrth ateb yr holl gwestiynau. Pob lwc iddo yng ngweddill y gemau rhyngwladol ac yn ei yrfa.

Diolch: Hoffai'r ysgol ddiolch am rodd garedig Pwyllgor y Ganolfan tuag at gadeiriau newydd i'r ystafell gyfrifiadurol yn yr ysgol. Bydd seti cyfforddus ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol!

Gala Nofio : Cafodd y disgyblion lwyddiant mewn gala Nofio yn ddiweddar yn erbyn ysgolion Arfon. Daeth yr ysgol yn bedwerydd y tro yma a phawb wedi nofio yn arbennig o dda.



Dydd Gwyl Dewi Dyma lun o rai o'r disgyblion wedi gwisgo yn arbennig ar gyfer yr achlysur. Cafwyd parti arbennig ar gyfer plant yr Urdd er mwyn dathlu Gŵyl Ddewi ac i ddiolch i'r plant am eu gwaith caled yn ystod gweithgareddau'r Urdd drwy'r flwyddyn.



Ole Ole, Ole... BRYNREFS

Llongyfarchiadau i dim pêl-droed dan 15 Ysgol Brynrefail ar gyrraedd rownd derfynol Cwpan Cymru. Ar faes 3G y Seintiau Newydd yng Nghroesoswallt llwyddwyd i guro Ysgol Maelor, Wrecsam. Ac am gêm.

Roedd cryn fantais gan fechgyn Wrecsam gan fod ganddynt faes 3G ar dir yr ysgol. Hefyd roedd rhai o'u chwaraewyr yn aelodau o garfan Academi y Seintiau Newydd.

Roedd Brynrefail i lawr o 2-0. Sawl gwaith dros y blynyddoedd

rwyf wedi cyfeirio at allu yr hogiau i frwydro yn ôl. 2-2 ac yna 3-2 i hogia Wrecsam. Yn ôl daeth Brynrefs ac unioni'r sgor. 3-3 a'r arwr Ifan Mansoor a rwydodd dair gôl hogia Arfon.

Dim amser ychwanegol, ond syth i giciau o'r smotyn. Dwy o giciau Wrecsam yn mynd dros y trawst ac Iolo Roberts yn arbed y drydedd. Brynrefs trwodd felly o 3-1 ar giciau o'r smotyn.

Byddant yn dychwelyd i Groesoswallt yn ystod mis Ebrill ar gyfer y rownd derfynol. Edrychwn ymlaen.

MAE GEIRIAU YN BRIFO

I'r chwaraewr proffesiynol mewn sawl camp mae gofyn heddiw ar lefel uchel o hunan ddisgyblaeth. Mae cyn gymaint o gamerau – a meicroffonau – yn y gemau erbyn hyn bod 'brawd mawr' yn wirioneddol gwyllo a gwrando. Yn nhyb rhai mae dylanwad yr ail chwarae wedi gwella penderfyniadau mewn tennis a chriced, ond bod y TMO yn llesteirio dylanwad y dyfarnwr ym myd rygbi.

(Gyda llaw, ydych yn cytuno y dylsid stopio'r cloc adeg pob sgrym hyd nes bod y bêl wedi ei rhoddi i mewn yn ddilys. Yna, ail stopio/ ail gychwyn os bydd rhaid ail osod.. Buasai'n ddiddorol gwybod faint o amser 'byw' fuasai hyn yn ychwanegu at gêm sy'n costio ar gyfartaledd rhyw £60 i'w gwyllo ar y lefel uchaf.)

Yn ddiweddar cefais fy nhristhau gan y diffyg disgyblaeth yma. Nid ymhelaethaf ar saga y 'gipsy boy' sy'n dal i rygnu ymlaen.

Mwy trist o lawer yw ymddygiad 'cefnogwyr' Lerpwl a Man U. Pam yn y byd nad yw'r clybiau yma yn ymateb i'r llafar-ganu gwarthus, gwenwynig yma sy'n cyfeirio at drychinebau Hillsborough a Munich. Y maent yn pardduo'r cof i rai sy'n dal i ddiodeff o'r digwyddiadau erchyll yma. Yr un yw'r cyfeiriadau cefnogwyr at gysylltiad Iddewig clwb Spurs.

Oniddylsai rawdurdodau gosbi'r tîmau am ymddygiad y cefnogwyr. Ac onid oes lle i'r 'gwir' gefnogwr leisio eu gwrthwynebiad hefyd. A yw eu 'tawelwch' yn dynodi eu bod yn anwybyddu'r broblem, ac yn ddigon parod i werthu'r tocynnau i'r 'llafar-ganwyr' yma.

OS TARO – TARO YMHELL

Oes rhai ohonoch yn dilyn cystadleuaeth griced Cwpan y Byd T20 draw yn yr India? Wel, dyna adloniant. Gemau cyffrous a sgiliau anhygoel gan y batwyr yn enwedig. Meddyliwch am dimau yn sgorio 200+ mewn 20 pelawd. Dim rhyfedd fod y dull yma o'r gêm yn denu'r torfeydd led-led y byd – a chwaraewyr fel Peterson, Gayle a De Villiers yn ennill arian rhyfeddol yn yr IPL a'r Big Bash draw yn Awstralia. Oherwydd yr adloniant pur a hyd rhesymol y gemau – rhyw 3 awr -sy'n dderbyniol i'r cwmnïau teledu a'r gwylwyr ac felly i ddenu arian mawr. Yn anffodus hefyd mae cyfleon i ddenu y 'cymylau' amheus i'r gamp sy'n ymwneud â betio.

Fel yr enwau grybwyllwyd yn barod mae rhai chwaraewyr erbyn hyn yn arbenigo yn y dull yma o'r gêm yn unig ac yn 'dilyn y ddoler'. Maent yn sêr ac yn ymestyn ffiniau'r gêm drwy eu taro pwerus ac addasiad o ergydion. Yn sicr, bydd yn dylanwadu ar y



Gareth Hughes ddaeth i'r amlwg eto y mis hwn. Yn dilyn ei lwyddiant yn Ras Moel-y-ci fis Chwefror, daeth yn fuddugol hefyd yn Ras Maesgwm, Llanberis ac yn Ras yr Aran, Llanuwchllyn.

Alun Vaughan aeth a hi ar y ffordd. Daeth yn fuddugol yn Hanner Marathon Ynys Môn yn gynharach yn y mis, ac yna teithiodd draw i Tattenhall ar gyfer Ras 10 cilometr yng nghyfes Cynghair y Gororau – ac ennill. Mae wedi cystadlu mewn tair ar ddeg o'r rasys hyn hyd yma, ac wedi ennill unarddeg ohonynt. Record anhygoel!

Ac mewn Ras Traws-gwlad a gynhaliwyd yn Falkirk, Yr Alban, daeth Rob Samuel yn unfed ar ddeg, yn cynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth rhwng gwledydd Prydain.

Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd bydd Cyfres Rasys Nos Fawrth eisoes wedi cychwyn, gyda deg ras i'w cynnal o hyn hyd ddiwedd Mehefin. Adroddiadau a chanlyniadau Mawrth ac Ebrill yn y rhifyn nesaf.

math o gemau welir yn y cynghreiriau lleol.

Dros y blynyddoedd diwethaf yma yn y gogledd bu bwriad pendant i baratoi lleiniau gwell, yn ffafrio'r batwyr. Mae'r cyfanswm rhediadau ar gyfartaledd wedi cynyddu. Un peth braf, fel yn y T20 yw rhoddi pwyslais unwaith eto ar gyfraniad y troellwr. Haws taro y bêl gyflym, yn enwedig gyda'r batiau trymion heddiw. Bat bach dau bwys oedd gen i ar hyd fy nghyrfa. 'Bat Woolworth' fel y cyfeiriodd un o'r chwaraewyr cyfoes ato. Ond cyfranodd y bat bach yna sawl cant i mi.

Ond, seren y T20 i mi yw Joe Root. Mae hwn yn chwarae'n rhyngwladol mewn gemau Prawf, 50 pelawd a'r T20 – ac yn llwyddo yn y dair disgyblaeth. Nid yw yn 'slogiwr'. Ond mae techneg wych ganddo ac yn sgorio ei rediadau drwy chwarae ergydion traddodiadol. Mae ei gymhareb o rediadau/ peleni a wynebwyd yn rhyfeddol. Mae'n tanseilio fod yr un rhediad cyson yr un mor bwysig ag ergydion dros y ffin wrth adeiladu cyfanswm.

SGWRS –A CHOFIO.

Dyn ffwtbol yw'r Parch. John Pritchard, ac fel fi yn dilyn ochr goch dinas Manceinion. A hwy newydd guro City mae gwên ar wyneb y ddau ohonnom ar y bore Llun yma. Dal i bendroni dros Van Gaal mae'r ddau ohonom serch hynny. (Anghofiwn Gwpan Ewropa.) Eto, mae VG yn rhoi cyfleuon i'r chwaraewyr ifanc.

Ond, i gyfeiriad gwahanol yr aeth ein sgwrs yn ddiweddar. I'r rhai ohonoch sy'n craffu ar ôl – rifynnau yr Eco ar ein safle we fe welwch mai John Pritchard yw'r cyfeiriad cyntaf i sgoriwr gôl yn yr Eco. Yn wir, mae ei enw yn yr ail rifyn hefyd fel sgoriwr. A hynny gan un oedd yn chwarae'n rheolaidd i'r Darans yn y linell amddiffyn.

Tipyn o Beckenbauer y 70 a'u. Ond, y gôl gyntaf yna.

Chwaraeais innau yn y gêm honno, nôl ym mis Chwefror 1976. Ein gwrthwynebwyr ar Ffordd Padarn oedd tîm cryf Llanfairpwll yng Nghwpan Gogledd Cymru. Yn sicr, dyma un o'r gemau gorau a chwaraeais ynddi. Fel eleni, cafwyd gaeaf gwlyb ac roedd y cae yn drwm. Roedd Llanfairpwll yng Nghyngair Môn yr adeg honno, ond wedi hel tîm profiadol yn cynnwys nifer oedd wedi chwarae yn y Welsh League. Yn eu mysg roedd Dafydd Mansel, Joe Williams, Dafydd McCarter, Now Parry a Norman Morgan.

Hefyd cefnwr barfog a'i wreiddiau ym mro'r Eco – Andy McCann.

Cawsom hanner cyntaf trychinebus ac roedd yn 3-0 i'r Monwysion ar yr hanner. Wn i ddim beth oedd yn y tē hanner amser, ond gyda gwynt o'r Nant a'r dorf niferus tu cefn i ni daeth yn gyfartal 3-3 diolch i goliau John, Barry Davenport a Gwilym Williams. Am ddiweddglo. Os cofiaf yn iawn daethom yn agos sawl gwaith, ond yna Llanfair yn torri allan a Norman Morgan yn cipio'r fuddugoliaeth gyda gôl hwyr – ei drydedd o'r gêm. Chwip o gêm, ac ysbryd 'cwpan' y Darans ar ei orau.

Y Sadwrn wedi'r sgwrs roedd Llanber draw yn Llanfairpwll yn rownd gyn-derfynol Cwpan Cookson. Dim byd yn agos am y canlyniad yma – 6-0 i Lanberis. Edrychwn ymlaen i'w gweld yn y rownd derfynol yn erbyn Glantraeth ar Faes Nantporth ar nos Fawrth,, Ebrill 19 am 7.30pm.

Mae'r Darans hefyd i wynebu Pentraeth gartref yn rownd yr 8 olaf o Gwpan Mawddach.

O ia, sgoriwr gôl gyntaf Llanberis draw yn Llanfairpwll oedd Nidian Huws, cefnwr arall, ond sgoriwr goliau cofiadwy o giciau rhydd.



Chwaraeon



Y GAMP LAWN GYNTAF



Wel , am dymor i Rhun Williams a charfan rygbi dan 20 Cymru. Am y tro cyntaf ar yr oedran yma cyflawnwyd y Gamp Lawn yng Nghystadleuaeth y Chwe Gwlad. I goroni'r cyfan cafwyd buddugoliaeth gyfforddus yn erbyn yr Eidal draw ar Barc Eirias. Mae'n amlwg fod y chwaraewyr ifanc yma yn ymateb i gefnogaeth wych y torfeydd lluosog sy'n mynychu'r gemau.

Daeth y newyddion da fod yr Undeb a Chyngor Conwy am fuddsoddi tua £2 filiwn i osod maes 4Gi lawr ym Mharc Eirias. Hefyd cynyddu'r adnoddau hyfforddi a ffitrwydd yno. O gael yr adnoddau yma yna bydd Parc Eirias yn gartref safonol iawn i gemau rygbi, pêl-droed a hoci.

Ar faes 4G chwaraewyd y gêm dan 20 draw yn Iwerddon. Roedd yn gêm gyflym iawn ac yn llawn cyffro. Dyma'r ffordd ymlaen. Truenus yw gweld cyflwr cae Rodney Parade, Casnewydd sy'n cael ei rannu gan dim rhanbarthol y Dreigiau a chlwb pêl-droed Casnewydd.

Daeth y newydd hefyd fod Rhun wedi cael cynnig cytundeb gyda rhanbarth Gleision Caerdydd. Parc yr Arfau amdani felly, a chae 4G arall. Hanner can mlynedd yn ôl chwaraeais fy nghêm ryngwladol griced gyntaf yn erbyn Iwerddon ar y maes hwn, pan oedd yn faes criced Parc yr Arfau. 50 can mlynedd!

Cafodd y garfan tipyn o sylw ar y cyfryngau. Yn amlwg mae ambell i seren y dyfodol yn y garfan. Soniwyd am yr ysbryd iach

rhwng aelodau'r garfan. Eu ffitrwydd, a'u sgiliau cynhenid. Roedd sawl cyfeiriad at allu Rhun, ei gyflymder, cadernid dan y bêl uchel a'i amseru i mewn i'r linnell ymosodol. Gwelwyd hyn ar ei orau wrth iddo sythu'r linell a rhoddi pas berffaith i'r asgellwr sgorio trydydd cais Cymru. Trueni na chafodd Rhun 'ei genedlaethol gais' ond roedd yno i dderbyn y bas olaf os oedd rhaid ynglyn â sawl un o geisiadau Cymru eleni.

Yr un pwynt pwysig arall yw bod y chwaraewyr yma yn cael cyfle i chwarae gyda timau'r rhanbarthau. Nid dyma'r adeg iddynt fod yn eistedd ar y fainc yn gwyllo 'tramorwyr' yn llenwi'r safleoedd. Roedd awgrym bod Warren Gatland efallai am fynd ag ambell i chwaraewr gyda'r garfan hyn draw i Seland Newydd yr haf yma.

Ond nid yw'r tymor drosodd i Rhun o bell ffordd. Ar lefel clwb mae Tîm y Gogledd yn brwydro i orffen yn y pedwar uchaf i gael dyrchafiad i Uwch Gynghrair Cymru. Dyma fuasai'n wir lwyddiant, a cham pwysig i sefydlu'r 'pumed rhanbarth'.

Gobeithio y bydd Rhun yn rhydd o unrhyw anafiadau oherwydd ym mis Mehefin bydd Cwpan y Byd dan 20 yn ardal Manceinion. Bydd carfan Cymru yno yn chwifio baner Hemispher y Gogledd ac yn yr un grŵp â Seland Newydd. Cyfle i ni ogleddwyr groesi Clawdd Offa a chefnogi dyfodol rygbi Cymru.

Diolch i ti Rhun am roddi bro'r Eco ar y map, ac rwy'n siwr wedi symbylu sawl bachgen ifanc lleol yn ein clwb 'mabwysiedig' draw yng Nghaernarfon i efelychu dy lwyddiant.